

WEDI'Y YARU GAN  
**FFYNIANT  
— BRO —**

POWERED BY  
**LEVELLING  
— UP —**



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council



UK Government Wales  
Llywodraeth y DU Cymru

 Tyfu  
Canolbarth Cymru  
Growing  
Mid Wales



# LLANBEDR PONT STEFFAN

## Arfarniad Ardal Gadwraeth

Mai 2024

Paratowyd ar gyfer

**Cyngor Sir Ceredigion**

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

## Tabl Cynnwys

## ARFARNIAD ARDAL GADWRAETH LLANBEDR PONT STEFFAN

1.	CYFLWYNIAD.....	3
2.	CYFLWYNIAD I ARDAL GADWRAETH LLANBEDR PONT STEFFAN.....	7
3.	DEDDFWRIAETH, POLISI CYNLLUNIO A CHANLLAWIAU.....	11
4.	DIFFINIAD O DDIDDORDEB PENSAERNIOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG.....	14
5.	CYD-DESTUN FFISEGOL.....	20
6.	DATBLYGIAD HANESYDDOL .....	21
7.	DADANSODDIAD GOFODOL.....	27
8.	CYMERIAD PENSAERNIOL.....	36
9.	ASEDAU DYNODEDIG AC ADEILADAU LLEOL PWYSIG.....	51
10.	CYMDEITHASAU HANESYDDOL.....	53
11.	HANESION CUDD.....	58
12.	BIOAMRYWIAETH .....	59
13.	GWERTH CYMUNEDOL.....	62
14.	MATERION—DADANSODDIAD CGCB .....	65

## CYNLLUN RHEOLI ARDAL GADWRAETH LLANBEDR PONT STEFFAN

1.	CYFLWYNIAD.....	2
2.	CYFARWYDDIADAU ERTHYGL 4 .....	2
3.	ADOLYGIAD FFIN.....	5
4.	YR ANGEN AM GANLLAWIAU DYLUNIO MANWL NEU WYBODAETH GYHOEDDUS.....	5
5.	CYFLEOEDD AR GYFER RHESTRU LLEOL.....	10
6.	YSTYRIED GORFODI.....	13
7.	CYFLEOEDD AR GYFER ADFYWIO.....	13
8.	CANLLAWIAU HYSBYSEBU A RHEOLI .....	17
9.	ADEILADAU MEWN PERYGL .....	19
10.	GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL .....	21
11.	COED, TIRWEDD A MANNAU AGORED.....	24
12.	MONITRO AC ADOLYGU .....	26
	ATODIAD A: CYNLLUN GWEITHREDU .....	28
	ATODIAD B: CYFEIRIADAU A LLYFRYDDIAETH.....	31

## 1. CYFLWYNIAD

### 1.1 Yr Amgylchedd Hanesyddol yng Ngheredigion

- 1.1.1 Mae tirwedd Ceredigion â thystiolaeth gyfoethog o'r gorffennol. Mae'r term 'amgylchedd hanesyddol' yn disgrifio canlyniadau rhyngweithio dynol â'r amgylchedd naturiol dros filoedd lawer o flynyddoedd, gan gynnwys yr adeiladau, henebion, ardaloedd cadwraeth, trefluniau a thirweddau rydym yn eu gwerthfawrogi fel cymuned ac yn dymuno eu cadw. Bwriad y gyfres hon o arfarniadau a chynlluniau rheoli yw cynorthwyo'r Cyngor a'r gymuned leol / y cyhoedd i ddeall gwerth a diddordeb arbennig yr ardaloedd cadwraeth yng Ngheredigion, a'r ffordd orau o'u diogelu a'u gwella.
- 1.1.2 Mae llawer o nodweddion hanesyddol yn cael eu diogelu trwy ddeddfwriaeth a'r system gynllunio (gweler isod). Yn ogystal ag asedau dynodedig Ceredigion mae nifer o nodweddion heb eu dynodi gan gynnwys safleoedd archeolegol ac adeiladau hanesyddol. Gall asedau heb eu dynodi fod yn fwy agored i newidiadau anghydnaws neu golled trwy ddatblygu a gwaith arall. Yn ogystal â dadansoddi cyfraniad asedau dynodedig i drefi Ceredigion, gall cydnabod asedau heb eu dynodi, trwy ddulliau megis yr arfarniad hwn, helpu i nodi eu harwyddocâd a'u diogelu ar gyfer y dyfodol. Yng Nghymru, mae dros 200,000 o asedau treftadaeth heb eu dynodi wedi'u cofnodi ar y pedwar Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol sydd bellach yn ystyriaeth yn y system gynllunio o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.
- 1.1.3 Mae 1896 o adeiladau ac adeileddau wedi'u cynnwys yn y 'Rhestr o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol a Hanesyddol Arbennig' yng Ngheredigion. Mae llawer mwy o adeileddau a adeiladwyd cyn 1948 wedi'u diogelu gan eu bod o fewn 'cwrtil' adeilad rhestredig. Mae adeilad rhestredig yn un sydd wedi cael ei nodi, gan Cadw, fel un o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol cenedlaethol. Oherwydd hynny, byddai angen caniatâd ar gyfer unrhyw waith a fyddai'n effeithio ar gymeriad yr adeiledd neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol – a elwir yn Ganiatâd Adeilad Rhestredig. Yn groes i'r gred gyffredin, mae'r rhestriad yn cwmpasu'r adeilad cyfan – y tu mewn a'r tu allan, ac yn cynnwys unrhyw osodiadau neu ffitiadau.
- 1.1.4 Mae gan Geredigion 262 o Henebion Cofrestredig. Cofrestru yw'r ffordd y mae heneb neu safle archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei gydnabod gan y gyfraith. Mae'r term 'heneb gofrestredig' yn eang ei gwmpas ac yn cynnwys nid yn unig cestyll adnabyddus, abatai a safleoedd claddu cyn-hanesyddol, ond hefyd safleoedd megis odynau calch, aneddiadau canoloesol amddifad ac olion y diwydiant haearn, glo a llechi. Mae rhai henebion cofrestredig yn cynnwys adeiladau sy'n sefyll neu adfeilion ac nid oes gan eraill olion gweladwy uwchben y

ddaeear, ond mae eu harcheoleg gladdedig o bwysigrwydd cenedlaethol. Nod cofrestru yw gwarchod y dystiolaeth archeolegol sydd wedi goroesi o fewn safleoedd a henebion. Mae hyn yn cynnwys ffabrig ffisegol yr heneb, ei lleoliad ac unrhyw arteffactau cysylltiedig a thystiolaeth amgylcheddol. Mae hyn yn golygu os ydych am wneud gwaith a fyddai'n newid heneb gofrestredig yn ffisegol, mae'n debyg y bydd angen i chi wneud cais i Cadw am ganiatâd – a elwir yn Ganiatâd Heneb Gofrestredig.

- 1.1.5 Mae 12 o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Ngheredigion. Mae cofrestru yn nodi parciau a gerddi sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig i Gymru. Maent yn amrywio o ran dyddiad o'r cyfnod canoloesol i ganol yr ugeinfed ganrif. Mae cofrestru yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio; rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried diddordeb hanesyddol y safle wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw newidiadau neu beidio.
- 1.1.6 Mae pedair ardal yng Ngheredigion wedi'u dynodi trwy'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Y mwyaf o'r rhain yw Tirwedd Hanesyddol Ucheldir Ceredigion sy'n gorchuddio llawer o rannau dwyreiniol a gogleddol y sir. Mae Tirwedd Hanesyddol Dyffryn Teifi Isaf wedi'i lleoli yn y de-orllewin, ac mae'n cael ei rhannu'n rhannol â Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae Tirweddau Hanesyddol Dyffryn Drefach-Felindre a Thywi wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin, ond mae rhan ohonynt hefyd wedi'i lleoli o fewn ffin ddeheuol Ceredigion.
- 1.1.7 Mae gan Geredigion 13 o ardaloedd cadwraeth dynodedig hefyd, sy'n golygu bod rheolaethau ychwanegol ar gyfer dymchwel (sy'n gofyn am Ganiatâd Ardal Gadwraeth) a gwneud gwaith ar goed yn yr ardaloedd hyn. Yr ardaloedd cadwraeth yw:
- Aberaeron
  - Aberystwyth
  - Adpar
  - Aberteifi
  - Llanbedr Pont Steffan
  - Llanbadarn Fawr
  - Llandysul
  - Cenarth
  - Llanddewi Brefi
  - Llanrhystud
  - Llansantffraed
  - New Quay
  - Tregaron

O'r ardaloedd hyn mae gan Aberteifi, Llanddewi Brefi a Thregaron Gyfarwyddiadau Erthygl 4 yn eu lle. Mae'r Gyfarwyddiadau hyn yn dileu'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer adeilad, safle neu ardal benodol sy'n golygu bod mwy o gyfyngiadau o ran pa waith y gellir ei wneud heb fod

angen caniatâd cynllunio. Mae coed hefyd yn cael eu diogelu: rhaid rhoi 6 wythnos o rybudd i'r awdurdod lleol cyn gwneud gwaith ar goed mewn ardal gadwraeth.



*Ffigur 1 Golygfa gyffredinol o Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan*

## 1.2 Ardaloedd Cadwraeth

- 1.2.1 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol **gadw neu wella** cymeriad a golwg ardaloedd cadwraeth dynodedig o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r Ddeddf hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol nodi a dynodi ardaloedd cadwraeth newydd trwy benderfynu pa rannau o'u hardal sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.
- 1.2.2 Mae mwy na 500 o ardaloedd cadwraeth yng Nghymru ac maent yn cael eu gwerthfawrogi fel lleoedd arbennig gan y rhai sy'n ymweld â nhw ac yn byw neu'n gweithio yno.
- 1.2.3 Mae ardaloedd cadwraeth â thystiolaeth ffisegol gyfoethog o'r gorffennol. Mynegir eu diddordeb arbennig yng nghymeriad yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Gallai hyn fod yn batrwm yr anheddiad, trefn y gofod a'r lleiniau adeiladu a'r rhwydweithiau o lwybrau yn ogystal â'r arddull a'r math o adeiladau, eu deunyddiau a'u manylion.

- 1.2.4 Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.

### 1.3 Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli

- 1.3.1 Mae adran 71 o Ddeddf 1990 yn nodi y bydd yn ddyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella unrhyw rannau o'i ardal sy'n ardaloedd cadwraeth. Mae Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol yn datgan mai arfarniadau ardaloedd cadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer cynigion o'r fath gan eu bod yn darparu sail ar gyfer cynlluniau rheoli manylach.
- 1.3.2 Arfarniad ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer rheolaeth gadarnhaol. Mae'n rhoi darlun manwl o'r hyn sy'n gwneud ardal yn arbennig a gellir ei ddefnyddio i nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae'r arfarniad yn cynnig cyd-ddealltwriaeth o gymeriad a phwysigrwydd, ac yn amlygu problemau a photensial, y gellir eu defnyddio fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllun rheoli manylach wedi'i ategu gan fframwaith polisi lleol cadarn.
- 1.3.3 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi comisiynu The Griffiths Heritage Consultancy i baratoi arfarniadau a chynlluniau rheoli, ochr yn ochr ag adolygu ffiniau, ar gyfer yr ardaloedd cadwraeth mewn 6 o drefi'r sir.



*Ffigur 2 Golygfa arall o Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan*

1.3.4 Mae'r arfarniadau a'r cynlluniau rheoli wedi bod yn destun ymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel y nodir yn adran 4.5.6. Os cytunir arnynt, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus pellach, byddant yn cael eu mabwysiadu gan Gyngor Sir Ceredigion fel canllawiau cynllunio atodol (CCA).

## 2. CYFLWYNIAD I ARDAL GADWRAETH LLANBEDR PONT STEFFAN

### 2.1 Ffin yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Dynodwyd Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan yn 1969 ac estynnwyd ei ffin yn 1987. Mae'r ffin bresennol yr un fath â'r un sy'n dilyn yr estyniad yn 1987 ac fe'i dangosir dros y dudalen. Nid oes Cynllun Rheoli Cadwraeth cyfredol ar gyfer yr ardal gadwraeth.

### 2.2 Lleoliad a Safle

2.2.1 Mae Llanbedr Pont Steffan wedi'i lleoli yn nyffryn Teifi yn ne-ddwyrain Ceredigion ar y ffin â Sir Gaerfyrddin. Fe'i lleolir yng nghydlifiad afonydd Creuddyn a Dulas ag afon Teifi ac mae hefyd ar groesffordd nifer o ffyrdd pwysig trwy'r Canolbarth: yr A482 i'r gogledd-orllewin i Aberaeron ac Aberystwyth a hefyd i'r de-ddwyrain i Lanymddyfri a Bannau Brycheiniog; yr A485 i'r de-orllewin i Gaerfyrddin a hefyd tua'r gogledd-ddwyrain i Dregaron; a'r A475 i'r gorllewin i Gastellnewydd Emlyn ac Aberteifi. Fe'i gelwir weithiau y porth i Geredigion.




*Ffigur 3 Llanbedr Pont Steffan ('St Peter's by St Stephen's Bridge) – yr A482 i Lanymddyfri a De Cymru*





Ffigur 5 Ffin bresennol Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan



**Cyngor Sir Ceredigion**  
**Ceredigion County Council**  
 Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
 Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
 Ffôn/Tel. 01545 570881

**Llanbedr Pont Steffan / Lampeter**

**Allwedd / Key**  
 **Ardal Gadwraeth**

**Graddfa / Scale: 1:4,185**  
**Argraffwyd ar / Printed on: 2024-02-14**

© Crown copyright and database right 2024. All rights reserved. Ordnance Survey Licence No. 100024419.  
 © Local Government Information Unit (LGIU) 2024. All rights reserved. Ordnance Survey Licence No. 100024419.  
 © Local Government Information Unit (LGIU) 2024. All rights reserved. Ordnance Survey Licence No. 100024419.  
 © Local Government Information Unit (LGIU) 2024. All rights reserved. Ordnance Survey Licence No. 100024419.



0 100 200 m

- 2.2.2 I'r gorllewin o Lanbedr Pont Steffan mae'r arfordir ac i'r dwyrain mae Mynyddoedd Cambria. Dyma'r drydedd ardal drefol fwyaf yng Ngheredigion ar ôl Aberystwyth ac Aberteifi a lleoliad campws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Coleg Dewi Sant yn wreiddiol).
- 2.2.3 Mae ardal gadwraeth Llanbedr Pont Steffan yn cynnwys y rhan fwyaf o ganol y dref a mannau agored cysylltiedig. Mae wedi'i ffinio gan Eglwys Dewi Sant ac Eglwys Gatholig Llanbedr Pont Steffan i'r gorllewin, gan y Stryd Newydd a Theras Ffynnonbedr i'r de, ymyl dwyreiniol campws y brifysgol i'r dwyrain, a Chlwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan a'r Bryn i'r gogledd.

### 2.3 Disgrifiad Cryno

- 2.3.1 Yn dref farchnad draddodiadol, ni ddatblygodd Llanbedr Pont Steffan lawer mwy o ran maint na chynllun o'i thwf llewyrchus yn y 14eg ganrif hyd at y 19eg ganrif pan sefydlwyd Coleg Dewi Sant a thwf ei hagweddau masnachol trwy ddatblygiad crefftiau, gwasanaethau a diwydiannau i ddarparu ar gyfer anghenion yr ardal wledig. Mae'n dal i fod yn ganolfan fasnachol leol brysur, yn darparu gwasanaethau ar gyfer ardal eang gyda nifer o siopau annibynnol a marchnadoedd a digwyddiadau rheolaidd.
- 2.3.2 Mae'r dref wedi cadw ei chynllun llinellol canoloesol gyda'r coleg wedi'i ychwanegu ar ddiwedd y cyfnod Sioraidd ac ardaloedd o ddatblygiad preswyl o ganol a diwedd Oes Fictoria. Mae mannau agored gwyrdd pwysig wedi'u cynnwys hefyd a rhan o'r hen gomin i'r de.
- 2.3.3 Roedd Sir Aberteifi yn un o'r siroedd brenhinol a sefydlwyd gan Edward I ar ôl gorchfygiad Llywelyn yng Nghilmeri tua 1282, a daeth Llanbedr Pont Steffan o dan reolaeth frenhinol uniongyrchol. Fodd bynnag, ni chafodd hyn fawr o effaith ar ddiwylliant y dref gan fod dogfennau canoloesol yn dangos mai enwau Cymraeg sydd amlycaf ac mae'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig wedi parhau i ffynnu. Rhoddwyd y Siarter Bwrdeistref gyntaf yn 1284 ac roedd siarteri olynol yn golygu bod modd cynnal llawer o farchnadoedd a ffeiriau yn y Stryd Fawr lydan sy'n dal i gynnal ffeiriau hyd heddiw. Un o'r ffeiriau hyn oedd ffair Ceffylau Dalis a barhaodd hyd 1939.



**Ffigur 6 Ffair Geffylau Dalis, dechrau'r 20fed ganrif**

2.3.4 Tra bod cynllun Llanbedr Pont Steffan yn datgelu ei gwreiddiau tref farchnad ganoloesol, mae'r bensaerniaeth sy'n bodoli yn dangos ei ffyniant ar ddiwedd y cyfnod Sioraidd a Fictoraidd. Yn debyg i lawer o drefi, ehangodd tuag at allan o'i chanol dros y blynyddoedd sy'n golygu y pellaf yr ewch o ganol y dref yr ieuengaf yw'r adeilad ar y cyfan, er y bu rhywfaint o ddatblygiadau mewnlenwi yn yr 20fed a'r 21ain ganrif yn enwedig yn strydoedd cefn yn y canol canoloesol. Hefyd, mae dwy gydran allweddol o'r dref hanesyddol (Eglwys Sant Pedr a Choleg Dewi Sant) wedi'u lleoli ar gyrion canol y dref – i'r gogledd-orllewin a'r dwyrain. Prin yw'r olion ffisegol o ddechreuad canoloesol Llanbedr Pont Steffan sydd wedi goroesi uwchben y ddaear, er y gall fod mwy i'w ddarganfod o dan y ddaear ac o bosibl wedi'i guddio o fewn yr ailfodelu diweddarach o adeiladau cynharach.

### **3. DEDDFWRIAETH, POLISI CYNLLUNIO A CHANLLAWIAU**

Mae dolenni gwefan i'r dogfennau canlynol i'w gweld yn yr adran cyfeiriadau yn Atodiad B.

#### **3.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

3.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyfrif cyhoeddus i *'wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'*.

3.1.2 Cydnabyddir yn gyffredinol y gall yr amgylchedd hanesyddol gael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau a chyfrannu at ansawdd bywyd a llesiant. Os yw'r amgylchedd hanesyddol yn

mynd i barhau i ddarparu ei fuddion cyfoethog i gymunedau mae angen nodi'r hyn sy'n arwyddocaol a rheoli newid mewn modd sensitif a chynaliadwy.

- 3.1.3 Mae rheoli newid mewn modd cadarnhaol ar sail dealltwriaeth lawn o gymeriad ac arwyddocâd yr ardal yn hanfodol i gynnal ansawdd arbennig ardal benodol (neu unrhyw ased treftadaeth). Ategir hyn gan godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r buddion y gallant eu darparu a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud hynny.

### **3.2 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016**

- 3.2.1 Mae Adran 69 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol nodi 'ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu eu golwg' a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth. Rhaid iddynt hefyd lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella'r ardaloedd cadwraeth hyn o bryd i'w gilydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella ardaloedd cadwraeth mewn polisiau cynlluniau datblygu lleol ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio.
- 3.2.2 Roedd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 wedi diwygio Deddf Cynllunio 1990 mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys gofyniad i gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth gyda cheisiadau ar gyfer Cydsyniad Ardal Gadwraeth.
- 3.2.3 Cafodd y ddeddf newydd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 Gydsyniad Brenhinol ar 14 Mehefin 2023, a disgwylir i'r Ddeddf ddod i rym ar ddiwedd 2024. Bydd yn dod â'r holl ddeddfwriaeth bresennol ynghyd mewn un Ddeddf ddwyieithog heb effeithio ar y lefelau presennol o ddiogelwch neu ddyletswyddau.

### **3.3 Polisi Cenedlaethol a Chanllawiau**

- 3.3.1 Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (Rhifyn 11, Chwefror 2021) yn gosod y cyd-destun ar gyfer polisi defnydd tir cynaliadwy yng Nghymru ac yn nodi'r angen i hyrwyddo dylunio da.
- 3.3.2 Mae polisi ar yr amgylchedd hanesyddol wedi'i gynnwys ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi polisiau cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol arfer rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw neu wella cymeriad ardal gadwraeth a/neu ei lleoliad wrth ystyried cynigion datblygu.



***Ffigur 7 Y cwad ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant***

- 3.3.3 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol yn rhoi arweiniad ar sut i ystyried yr amgylchedd hanesyddol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau cynllunio.
- 3.3.4 Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried cyhoeddiad (2011) Cadw *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (Egwyddorion Cadwraeth) er mwyn sicrhau newid sensitif o ansawdd uchel.
- 3.3.5 Mae Cadw wedi cynhyrchu cyfres o gyhoeddiadau canllawiau arfer gorau sy'n ategu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi a chyngor cynllunio cysylltiedig gan gefnogi'r rheolaeth gynaliadwy o amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys: *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru; Rheoli Cymeriad Hanesyddol yng Nghymru; a Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*. Mae Cadw hefyd yn darparu amrywiaeth o ganllawiau ynghylch rheoli adeiladau rhestredig cenedlaethol a lleol (gan gynnwys *Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru a Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru*).
- 3.3.6 Mae cyhoeddiad Cadw *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru* (2017) yn ategu Polisi Cynllunio Cymru a TAN 24 ac yn nodi'r cyd-destun polisi a'r dyletswyddau i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn nodi agweddau allweddol ar arfer da ar gyfer eu dynodi a'u harfarnu, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu

polisiau lleol ar gyfer rheoli a gwella mewn ffordd gadarnhaol fel bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu cadw a'u gwella.

### 3.4 Polisi Cynllunio Lleol

- 3.4.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (CDL1): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) yn nodi polisiau a chynigion penodol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Ngheredigion am y cyfnod o 15 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae'r CDL1 newydd (CDL2) wedi'i atal ar hyn o bryd oherwydd materion yn ymwneud â ffosffad ac felly CDL1 yw'r Cynllun Datblygu cyfredol ar gyfer y sir.
- 3.4.2 Yn CDL1, mae Polisi DM07 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau o fewn ardaloedd cadwraeth ddangos y rhoddwyd ystyriaeth i Arfarniadau Ardal Gadwraeth, lle maent ar gael, a chanllawiau cenedlaethol.
- 3.4.3 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Cyngor Sir Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio yn darparu canllawiau atodol ar gyfer datblygiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol neu sy'n effeithio arno.

## 4. DIFFINIAD O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

### 4.1 Deall Arwyddocâd Ased

- 4.1.1 Yn eu *Hegwyddorion Cadwraeth*, mae Cadw yn nodi chwe egwyddor arweiniol ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol. Trwy ddilyn yr egwyddorion hyn, gellir rheoli newid yn ofalus fel y gellir diogelu a gwella'r hyn sy'n bwysig ac yn arbennig am asedau hanesyddol. Yr egwyddorion yw:
- Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerthoedd
  - Mae deall arwyddocâd ased hanesyddol yn hanfodol
  - Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir
  - Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol
  - Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson
  - Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt
- 4.1.2 Mae gan asedau hanesyddol lawer o werthoedd sy'n cyfrannu at eu harwyddocâd. Mae'r rhain yn cynnwys:
- eu gweddillion ffisegol a'r ffabrig sydd wedi goroesi
  - cofnodion darluniadol a dogfennol sy'n ein helpu i'w deall

- eu gallu i daflu goleuni ar agweddau ar y gorffennol a chysylltu ni â'r gorffennol
- eu nodweddion esthetig
- y gwerth sydd ganddynt i'r bobl sy'n uniaethu â nhw

#### 4.2 Crynodeb o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig ar gyfer Llanbedr Pont Steffan

EVIDENTIAL SIGNIFICANCE	HISTORICAL SIGNIFICANCE	AESTHETIC SIGNIFICANCE	COMMUNAL VALUES
MEDIUM / HIGH	HIGH	MEDIUM	HIGH

Mae'r crynodeb uchod, ynghyd â rhannau eraill o'r arfarniad hwn, yn helpu i nodi lle mae cyfleoedd i wella cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth.

4.2.1 Mae'r tabl hwn, ynghyd â'r esboniadau isod, yn crynhoi cyflwr yr ardal gadwraeth ar hyn o bryd ac yn nodi'r diddordeb arbennig a ddylai gael ei gadw, a hefyd lle gellir gwneud gwelliannau. Maent yn seiliedig ar yr ymchwil a'r asesiad ffisegol a hanesyddol a gynhaliwyd ar gyfer yr arfarniad hwn ac a ddefnyddir ar y cyd â chyhoeddiad Cadw *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (2011), sy'n nodi pedwar gwerth treftadaeth ar gyfer nodi arwyddocâd:

- **Gwerth tystiolaethol:** mae gan bob ased hanesyddol stori unigryw i'w hadrodd. Mae'r ffabrig a'r manylion hanesyddol sydd wedi goroesi — boed uwchben neu o dan y ddaear — yn ein helpu i ddeall pryd a sut y cafodd pob ased hanesyddol ei wneud, sut y cafodd ei ddefnyddio a sut y mae wedi newid dros amser. Gall ffynonellau darluniadol a dogfennol wella ein dealltwriaeth hefyd.
- **Gwerth hanesyddol:** gall asedau hanesyddol daflu goleuni ar agweddau penodol ar y gorffennol. Gallant ein helpu i ddeall sut roedd pobl yn byw ac yn gweithio, a'r credoau a'r gwerthoedd roeddent yn eu coleddu. Gallant fod yn gysylltiedig â phobl neu ddigwyddiadau nodedig. Trwy atgofio a chysylltu, gall asedau hanesyddol gysylltu pobl, agweddau ar fywyd a digwyddiadau o'r gorffennol â'r presennol.
- **Gwerth esthetig:** gallwn werthfawrogi asedau hanesyddol am eu nodweddion gweledol, p'un a ydynt yn deillio o ddylunio a chreffftwaith ymwybodol, neu o effaith ffodus newid dros amser. Mae chwaeth yn newid ac mae asedau hanesyddol yn newid hefyd: gall cofnodion

cynharach a dadansoddiad gofalus o'r hyn sydd wedi goroesi helpu i werthfawrogi gwerth esthetig.

- **Gwerth cymunedol:** gall asedau hanesyddol gael eu coleddu gan y bobl a'r cymunedau sy'n gysylltiedig â nhw, a gallant chwarae rhan bwysig mewn profiad neu gof cyfunol. Gall asedau hanesyddol fod â gwerth economaidd yn ogystal â gwerth cymdeithasol gyda'r gallu i ddarparu ffynhonnell werthfawr o incwm neu gyflogaeth.

4.2.2 Mae'r termau 'arwyddocâd' a 'gwerth' yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol yn y cyd-destun hwn ac mae'r ddau yn cyfrannu at nodi 'diddordeb arbennig' lle.

### 4.3 Gwerth tystiolaethol

- 4.3.1 Prin yw'r ymchwiliadau archeolegol sydd wedi cael eu gwneud yng nghanol y dref ac felly ychydig sydd wedi'i ddarganfod o'r cyfnodau cynharach. Mae chwiliad o Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol yn datgelu bod y rhan fwyaf o gofnodion yn gysylltiedig â'r anheddiad canoloesol ac ôl-ganoloesol. Fodd bynnag, mae potensial i gynyddu ein dealltwriaeth o gynllun a datblygiad canoloesol Llanbedr Pont Steffan a thystiolaeth debygol ar gyfer y ffordd Rufeinig sy'n torri ar draws rhan ddeheuol y dref hefyd. Mae gan Lanbedr Pont Steffan y potensial i roi sylw i rai o'r eitemau allweddol ar yr agenda ymchwil ar gyfer y cyfnod canoloesol, gan gynnwys plannu trefi, adeiladu cestyll ac adeiladu eglwysi. Mae ganddi'r potensial hefyd i roi sylw i themâu ymchwil ôl-ganoloesol ar aneddiadau (trefi). Nodir dau safle yn arbennig fel rhai sydd â photensial archeolegol cryf, sef Capel Sant Tomos (ni wyddys yr union leoliad) a'r eglwys blwyf wreiddiol i'r de o safle'r eglwys bresennol. Mae'r ymchwiliadau hynny a wnaed yn dangos bod yr archeoleg a gofnodwyd yn gorwedd ar ddyfnder bas o dan wyneb presennol y ddaear, a'i fod yn dra phosib y gallai gwaith daear effeithio arni'n hawdd. Gall hyn effeithio ar ei goroesiad yng nghanol y dref oherwydd datblygiadau diweddarach.
- 4.3.2 Mae llawer o'r adeiladau yng nghanol y dref wedi cadw eu strwythur Sioraidd ac mae rhai wedi cadw nodweddion pensaernïol Sioraidd. Mae'r rhain yn bwysig ar gyfer deall y gymdeithas Sioraidd a'i heffaith ar Orllewin Cymru, technegau ac arddulliau adeiladu a datblygiad y dref yn y cyfnod hwn.
- 4.3.3 Yn debyg i lawer o drefi yng Ngorllewin Cymru, mae adeiladwyr a pheirianwyr diwyro y cyfnod Fictoraidd ac Edwardaidd wedi gadael eu hól ar seilwaith a chynllun yr adeiladau, ac mae tystiolaeth glir o ddatblygiad ac ehangiad y dref yng nghanol / ar ddiwedd Oes Fictoria a dechrau'r 20fed ganrif. Lle mae nodweddion pensaernïol wedi goroesi, mae'r rhain yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gwerth tystiolaethol.





***Ffigur 8 Mae nodweddion pensaernïol Sioraidd fel y portsh hwn yn cyfrannu at werth tystiolaethol Llanbedr Pont Steffan***

- 4.3.4 Mae gan lawer o drefi Ceredigion ddaliadau archifol sylweddol sydd wedi bod yn destun ymchwil helaeth. Yr eithriad i hyn yw Llanbedr Pont Steffan a thra bod rhai daliadau o ddiddordeb mae'r mwyafrif o'r rhain yn gysylltiedig â'r Coleg, a chymharol ychydig o ymchwil ysgolheigaidd a wnaed ar gyfnodau a nodweddion eraill o ddiddordeb.

#### **4.4 Gwerth Hanesyddol**

- 4.4.1 Mae hanes cynnar a datblygiad canoloesol Llanbedr Pont Steffan yn rhoi darlun i ni o Orllewin Cymru'r Oesoedd Canol, yn enwedig o ran yr ardaloedd mwy gwledig y tu allan i'r trefi strategol bwysig ar hyd yr arfordir.
- 4.4.2 Mae'r cyfnodau ôl-ganoloesol yn dangos twf trefi marchnad llai a phwysigrwydd y rhain i'r poblogaethau gwledig. Mae'n bosibl nad oedd Llanbedr Pont Steffan wedi datblygu arddull Sioraidd goeth Aberaeron nac wedi ennill poblogrwydd Aberystwyth o ran twristiaid yn Oes Fictoria, serch hynny roedd yn hanfodol bwysig ar gyfer cynnal y boblogaeth leol.
- 4.4.3 Mae'r coleg / prifysgol yn nodwedd bwysig o hanes Llanbedr Pont Steffan nid yn unig oherwydd ei sylfaen gynnar, ei chyflawniadau academiaidd a'i phensaerniaeth ond hefyd am y cyfraniadau y mae aelodau'r brifysgol wedi'u gwneud i roi Llanbedr Pont Steffan ar y map hanesyddol. Mae hyn yn cynnwys cyfraniadau megis y rhodd o lawysgrifau canoloesol unigryw ac amhrisiadwy a'r casgliadau archifol yn Llyfrgell y Sylfaenwyr a chyflwyno'r gêm rygbi i Gymru.

- 4.4.4 Roedd teulu Harford yn deulu bonheddig o bwysigrwydd lleol a chenedlaethol a ddylanwadodd ar ddatblygiad y dref yn y 19eg ganrif, yn enwedig mewn perthynas â sefydlu ac ehangu'r coleg a gwelliannau i'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus megis cyflenwad dŵr y dref.

#### 4.5 Gwerth Esthetig

- 4.5.1 Mae Llanbedr Pont Steffan yn dref farchnad hanesyddol ddeniadol gyda chymysgedd o arddulliau pensaernïol Sioraidd a Fictoraidd. Mae ei hamrywiaeth yn ychwanegu at ei swyn heb unrhyw arddull na deunyddiau adeiladu sy'n dominyddu. Mae siopau annibynnol a diffyg siopau cadwyn mawr yn ychwanegu at ei hamrywiaeth a'i bywiogrwydd, fel y mae'r marchnadoedd a'r ffeiriau rheolaidd.
- 4.5.2 Mae pensaerniaeth yn y dref ar raddfa ddomestig yn gyffredinol, gyda'r eglwys a'r brifysgol yn cuddio eu maint cymharol fwy oherwydd eu lleoliadau. Nid yw unrhyw adeilad unigol yn dominyddu'r dref er bod y rhwydwaith o ffyrdd a llinellau adeiladu yn sicrhau na all unrhyw un weld y dref yn ei chyfanrwydd o unrhyw fan. Mae'n cadw awyrgylch hyfryd o dref gyfeillgar, hawdd uniaethu â hi, ar raddfa gyfforddus sy'n cynnig mynediad hawdd yn emosiynol ac yn gorfforol gydag ambell berl cudd rownd y gornel.
- 4.5.3 Mae lleoliad Llanbedr Pont Steffan, sy'n sefyll yn gyfforddus rhwng Mynyddoedd Cambria ac arfordir Bae Ceredigion, wedi'i hamgylchynu gan fryniau, caeau gwyrddlas, coetir ac afonydd yn sicrhau ei bod yn baradwys i gerddwyr a phobl sy'n hoff o gefn gwlad. Mae golygfeydd o fewn y dref yn gyfyngedig ond mae bron pob golygfa allan o'r dref yn cynnwys tirwedd hudolus enwog Ceredigion, ac o fewn pellter cerdded byr iawn fe ddewch allan i gefn gwlad agored.

#### 4.6 Gwerthoedd Cymunedol

- 4.6.1 Mae Llanbedr Pont Steffan wedi bod â rôl gymdeithasol ac economaidd bwysig i'r gymuned leol ac ehangach trwy gydol ei bodolaeth. O'i dechreuad fel anheddiad canoloesol a'i hanes o gynnal gweithgarwch economaidd megis y ffeiriau blynyddol hyd at ei statws fel canolfan gwasanaethau lleol heddiw, mae Llanbedr Pont Steffan wedi bod yn bwysig ac yn dal i fod yn bwysig i gymuned wledig fawr wasgaredig yng Ngorllewin Cymru.
- 4.6.2 Mae twristiaeth yn y dref heddiw yn gymedrol o'i gymharu â rhai o'r trefi cyfagos ond mae cyfleoedd i wella, gyda darparwyr llety ar gynnydd ac atyniadau tawel y dref a'i lleoliad yn dod yn fwyfwy adnabyddus yn raddol.

- 4.6.3 Mae'r ardal gadwraeth yn cynnwys nifer o adeiladau cyhoeddus ac adnoddau cymunedol megis yr eglwysi, amgueddfa, tafarndai, capeli, siopau, caffis, gwestai, ac adeiladau cymunedol ymysg eraill.



***Ffigur 9 Mae llawer o'r golygfeydd allan o'r dref yn datgelu tirwedd hyfryd Ceredigion***

- 4.6.4 Yn ystod y broses o lunio'r arfarniad hwn, anfonwyd arolwg cychwynnol at randdeiliaid yn gofyn iddynt nodi beth oedd yn bwysig, yn eu barn nhw, am yr ardal gadwraeth, ac a oedd unrhyw broblemau. Yn anffodus, ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r arolwg hwn.
- 4.6.5 Er mwyn casglu sylwadau cyhoeddus ar y drafft cyntaf o'r arfarniad a'r cynllun rheoli, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus galw heibio yn Llanbedr Pont Steffan ym mis Chwefror 2024. Anfonwyd copïau o'r Cynllun Rheoli drafft at fudd-ddeiliaid i gael sylwadau. Dim ond un cynrychiolydd o'r Cyngor Tref fynychodd y sesiwn a oedd yn nifer siomedig ar gyfer cymuned weithgar. Anfonwyd cyflwyniadau'r arddangosfa at y Cyngor Tref am sylwadau pellach. Roedd yr ymatebion yn ymwneud â'r materion canlynol, ymysg eraill:
- Cefnogaeth ar gyfer ymestyn y ffin ac awgrymiadau ar gyfer ei hymestyn ymhellach
  - Cyngor Tref wedi cyflwyno ceisiadau am arian ar gyfer gwella tirnodau lleol megis Sgwâr Harfford, Cloc Neuadd y Dref / Marchnad a'r gofgolofn

- Awgrym ar gyfer symud parcio yn Stryd y Coleg i ochr arall y ffordd er mwyn gwella diogelwch ac estheteg
- Cyngor Tref yn ceisio cyllid i ailwampio'r llwybr tref a chreu llwybrau eraill
- Awgrymiadau ar gyfer adeiladau rhestredig lleol: Neuadd Burgess, Eglwys Sant Thomas, Capel Brondeifi
- Awgrymiadau ar gyfer manteisio ar y cysylltiadau gyda rygbi ac Undeb Rygbi Cymru
- Cefnogaeth ar gyfer cadw enwau caeau gan eu bod yn bwysig i ddeall y safle

## 5. CYD-DESTUN FFISEGOL

### 5.1 Daeareg a Thopograffeg

- 5.1.1 Yn dopograffigol mae Llanbedr Pont Steffan wedi'i lleoli ar ardal weddol wastad gyda Dyffryn Teifi i'r de a thir uwch i'r gogledd. Mae'r tir yn disgyn yn raddol o'r gogledd i'r de ond yn wastad ar y cyfan o fewn canol y dref. Mae'r tir uwch amlwg i'r gogledd wedi'i goroni â choetir.
- 5.1.2 Y ddaeareg sylfaenol yw cerrig llaid a thywodfeini silwraidd ffurfiant Pontarfynach a ffurfiwyd mewn basn môr dwfn rhwng 428-444 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Mae'r ddaeareg ddrifft yn cynnwys dyddodion llen rhewlifol Defensaidd yn dyddio o'r cyfnod rhwng 70,000-9,000 CC, tywod a graean a ddyddodwyd gan ddyfroedd tawdd tymhorol ac ôl-rewlifol. Mae llawer o'r dirwedd heddiw yn gynnrych y rhewlifant hwn gan greu dyffryn siâp 'U' eang ar hyd afon Teifi. Mae sianel y Teifi wedi torri i lawr yn raddol trwy'r dyddodion rhewlifol i greu rhesi o derasau uchel ar orlifdir a nodweddir gan amrywiaeth drawiadol o dirffurfiau afon, gan gynnwys doleniadau, llynnoedd dôl iau a bariau o waddod afon agored.
- 5.1.3 Mae'r dref wedi'i lleoli ym man cyfarfod sawl dyffryn bach sy'n cynnwys llednentydd i afon Teifi sy'n ymdroelli ychydig i'r de o'r dref.
- 5.1.4 Mae olion llawer o chwareli bach i'w gweld yn yr ardal leol sy'n dangos bod carreg leol wedi cael ei defnyddio ar gyfer adeiladu.

### 5.2 Cymeriad Tirwedd

- 5.2.1 Mae adnodd LANDMAP Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod Llanbedr Pont Steffan o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol 'Dyffryn Teifi'. Nid yw datganiad cymeriad tirwedd hanesyddol LANDMAP yn adrodd fawr ddim o ddiddordeb ar gyfer Llanbedr Pont Steffan gan ei diffinio fel ardal adeiledig sy'n cynnwys tref hanesyddol fach sy'n cael ei dominyddu erbyn hyn gan y brifysgol. Mae'n nodi bod Llanbedr Pont Steffan yn dyddio o'r cyfnod canoloesol ond

bod y rhan fwyaf o'r adeiladau hŷn yn dyddio o'r 19eg ganrif, a'r rhan fwyaf yn dyddio o ddiwedd y ganrif honno. Mae'r datganiad cymeriad yn cofnodi bod craidd y dref, gan gynnwys y brifysgol, wedi cadw llawer o'r cymeriad hwn o'r 19eg ganrif, ac nid yw'r tai modern, adeiladau'r brifysgol a strwythurau modern eraill yn amharu'n fawr ar y cymeriad hwn.

## 6. DATBLYGIAD HANESYDDOL

### 6.1 Cyn-hanesyddol

6.1.1 Prin yw'r gweithgarwch cyn-hanesyddol y gwyddys amdano yn yr ardal o amgylch Llanbedr Pont Steffan. Y prif ddarganfyddiadau yw olion cnydau, tir caeedig a chasgliadau bach o naddion gwastraff sy'n dangos ei bod yn debygol y bu o leiaf rhywfaint o weithgarwch yn y cyfnod hwn. Mae'r ychydig safleoedd yn yr ardal sydd wedi cael eu nodi fel rhai o'r Oesoedd Neolithig, Efydd neu Haearn yn aml yn destun dadl o ran oedran a dehongliad.

6.1.2 Yn y dirwedd ehangach mae gweithgarwch a nodwyd o'r Oes Haearn yn fwy cyffredin, ac mae olion tiroedd caeedig a bryngaerau wedi'u gwasgaru dros y tir uwch cyfagos i'r gogledd.

### 6.2 Yr Oesoedd Canol


6.2.1 Yn nodweddiadol o'r cyfnod cythryblus yng Ngorllewin Cymru ar yr adeg hon, ymddengys fod hanes cymhleth i gastell Llanbedr Pont Steffan. Mae cyfeiriadau at y castell o ddechrau'r 12fed ganrif yn nodi iddo gael ei losgi gan feibion Gruffudd ap Cynan yn 1137. Mae'n debyg bod Castell Steffan, fel y'i gelwid, wedi cael ei ailadeiladu gan ei fod yn ymddangos iddo newid dwylo sawl gwaith rhwng rheolwyr Cymru a Lloegr yn ystod y deuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg hyd 1290 pan roddodd y Brenin Edward I y castell i Geoffrey Clement ynghyd ag Arglwyddiaeth Caron.

6.2.2 Mae Crouch (1989) yn awgrymu i Cadell, wŷr Rhys ap Tewdwr roi'r eglwys yn Llanbedr Pont Steffan i Briordy Totnes rhwng 1100 a 1135, ond mae ffynonellau eraill (e.e. Murphy 2021) yn awgrymu ei bod yn fwy tebygol i'r castell a'r eglwys gael eu sefydlu gan yr Eingl-Normaniaid cyn 1137 pan oedd y rhanbarth dan eu rheolaeth. Mae'n bosibl bod y fynwent gron wreiddiol, fel y dangosir ar y Map Degwm diweddarach (isod), yn awgrymu dechreuad cynharach.

6.2.3 Credir yn gyffredin mai gweddillion Castell Steffan yw'r mwnt ar dir y brifysgol ond mae'n bosibl hefyd mai Castell Steffan oedd y twmpath, mwnt o bosib, a leolir i'r gogledd o'r eglwys. Ymddengys nad yw'r naill na'r llall wedi cael ei gloddio.

6.2.4 Sut bynnag y cychwynnodd Llanbedr Pont Steffan, nid oes dwywaith ei bod wedi datblygu i fod yn anheddiad erbyn ymweliad Gerallt Gymro yn 1188 sy'n cyfeiria ato fel 'Pons Stephani' (Pont Steffan).

- 6.2.5 Mae'r fwrdeistref yn dyddio o 1284 pan gafodd Rhys ap Maredudd yr hawl i gynnal marchnad wythnosol a ffair flynyddol ar ŵyl Sant Denus.
- 6.2.6 Gwyddom am amrywiaeth o grantiau a siarteri ychwanegol ar gyfer marchnadoedd, ffeiriau a hawliau eraill, ond tref fach oedd y dref ganoloesol gan barhau i wasanaethu ei chefnwlad amaethyddol yn ôl pob tebyg, yn gweithredu fel pwynt mynediad i deithwyr i'r gorllewin, ac o bosibl, ynghyd â'r trefi eraill ar ei hyd, fel pwynt amddiffynnol strategol ar hyd glannau afon Teifi.
- 6.2.7 Yn 1301 dim ond 19½ o fwrdeisi a gofnodwyd, gan godi i 26 yn 1317, a'r cyfan bron yn nwylo'r Cymry.
- 6.2.8 Adeiledd canoloesol arall y gwyddys amdano oedd Capel Sant Tomos y ceir sôn amdano mewn dogfennau o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ac a gofnodwyd gan Samuel Lewis yn 1833 fel Mynwent Twmas (mynwent Tomos). Nododd Lewis fod gweddillion y capel i'w gweld ar ddechrau'r 17eg ganrif a bod eirch plwm yn cael eu cloddio'n aml yn ôl y sôn. Dangosir lleoliad tybiedig y capel ar fap yr Arolwg Ordnans 1889 (Ffigur 3) wrth ochr Stryd Sant Thomas er na chanfu cloddiadau diweddarach yn yr ardal hon unrhyw beth o bwys.
- 6.2.9 Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed wedi cynhyrchu map damcaniaethol o stent Llanbedr Pont Steffan yn yr Oesoedd Canol (Murphy 2021) yn dangos y prif safleoedd y gwyddys amdanynt, ac mae i'w weld isod.
- 6.2.10 Nid yw'r cyfnod canoloesol hwyr yn hanes Llanbedr Pont Steffan wedi cael ei ymchwilio'n dda a does dim dwywaith bod mwy i'w ddarganfod am y cyfnod hwn yn hanes y dref.
- 6.2.11 Mae'n debyg mai *Britannia* John Ogilvy (1675) sydd â'r darluniad cynharaf ar ffurf map o Lanbedr Pont Steffan. Ni wyddys ei gywirdeb ond ymddengys ei fod yn dangos stryd fawr ddatblygedig o amgylch ardal y farchnad a safle'r eglwys i'r gogledd-orllewin a'r castell i'r gogledd-ddwyrain o bosib.



*Ffigur 10 Murphy (2021) Map damcaniaethol Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed o stent Llanbedr Pont Steffan yn yr Oesoedd Canol*



*Ffigur 11 Darn o Britannia Ogilvy gyda lliwiau llaw diweddarach yn dangos 'Llanbeder'*

### 6.3 Y Cyfnod Ôl-ganoloesol

- 6.3.1 Roedd y dref wedi parhau i fod yn dref fach i'r cyfnod ôl-ganoloesol. Yn 1728 roedd y boblogaeth tua 300 gan godi i ddim ond 320 erbyn 1801.
- 6.3.2 Erbyn y 1800au roedd Llanbedr Pont Steffan yn ganolfan amaethyddiaeth yn ogystal â chrefftau a gwasanaethau i'r ardal leol. Roedd nifer o felinau gwlan yma yn ogystal â'r crefftau arferol fel gof, tanerdy lledr, cyfrwywr a gwneuthurwr esgidiau. Daeth yn fan ymgynnull hefyd i borthmyn lleol a gyfarfu yn Llanbedr Pont Steffan i gerdded eu hanifeiliaid yr holl ffordd i farchnadoedd de-ddwyrain Lloegr. Adlewyrchir hyn yn yr enwau yn y dref megis Ffordd y Porthmyn, hen dafarn y Drovers Arms Inn ac ambell Wyl Gelfyddydol y Porthmyn.
- 6.3.3 Yn ei *Topographical Dictionary of Wales*, mae Samuel Lewis yn disgrifio Llanbedr Pont Steffan fel tref farchnad a thref 'fach' yn 1833 ond awgryma ei bod gynt yn "a place of greater extent and importance than it is at present, "the men of Llan-Bedr" being repeatedly mentioned in terms of distinction in the Welsh Chronicle".
- 6.3.4 Serch hynny, roedd hwn yn gyfnod o newid mawr i Lanbedr Pont Steffan. Yn 1822 sefydlwyd Coleg Dewi Sant (y brifysgol bellach) ac yn 1836-8 disodlwyd Eglwys y Plwyf Sant Pedr gan un newydd a adeiladwyd gan W Wittington o Gastell Nedd. Fodd bynnag, cafodd ei adeiladu'n wael ac fe'i disodlwyd eto yn 1868-70 gydag adeilad a ddyluniwyd gan R J Withers, pensaer o Lundain, ar safle yn union i'r gogledd o'i ragflaenydd. Disgrifia Lewis "the erection of many good houses on leases granted by J. S. Harford, Esq., of Peterwell, who is lord of the manor", bod pont newydd wedi cael ei hadeiladu dros y Teifi a bod sefydlu Coleg Dewi Sant "greatly tended to promote the prosperity of the place".
- 6.3.5 Mae Map Degwm y 1840au yn dangos Llanbedr Pont Steffan yn y cyfnod hwn wrth iddi ddechrau ehangu. Mae'n dangos strydoedd cefn yn dechrau datblygu a Choleg Dewi Sant newydd ei adeiladu a safle'r eglwys gynharach cyn iddi gael ei hailadeiladu ar ddiwedd y 19eg ganrif.
- 6.3.6 Sefydlwyd Coleg Dewi Sant gan yr Esgob Thomas Burgess gyda'r bwriad o ddarparu addysg ryddfrydol i'r clerigwyr ac ateb yr angen am fwy o glerigwyr o Gymru (a Chymraeg eu hiaith), yn enwedig y rhai na allent fforddio mynychu'r brifysgol. Gosodwyd carreg sylfaen y coleg ar 12 Awst yn 1822 ar dir a gafodd ei adael yn ewyllys John Scandrett Harford, a derbyniwyd ei fyfyrwyr cyntaf ar Ddydd Gŵyl Dewi 1827, ond ni chwblhawyd Siarter Gorffori Frenhinol y Coleg tan 1828. Hon yw prifysgol hynaf Cymru gyda dim ond prifysgolion hynafol Rhydychen, Caergrawnt a'r Alban yn ei hól-ddyddio ym Mhrydain. Cynlluniwyd adeiladau gwreiddiol y coleg gan y pensaer C R Cockerell.





*Ffigur 12 Map Degwm yr 1840au o Lanbedr Pont Steffan*

- 6.3.7 Mae cymharu map Arolwg Ordnans 1887/8 isod â'r Map Degwm yn dangos pa mor gyflym oedd y dref wedi datblygu yn y cyfnod hwn. Yn arbennig o amlwg mae dyfodiad y rheilffordd (yn 1866) ac adeiladu Heol yr Orsaf, y llinell adeiladu barhaus ar hyd ochr orllewinol Stryd y Coleg a'r datblygiad ar hyd Stryd y Bont.



*Ffigur 13 Map yr Arolwg Ordnans: Arolygwyd 1887, Cyhoeddwyd: 1888. Dalen Sir Aberteifi XXXIV.SW*

6.3.8 Roedd llawer o'r newid a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod hwn yn gysylltiedig â'r gŵr dywededig J S Harford. Roedd Harford yn fanciwr a thirfeddiannwr cyfoethog a oedd, ar y cyd â'i frodyr iau, wedi dod i feddiant Ystâd Peterwell yn 1819 a chael y teitl Arglwyddi Maenor Llanbedr Pont Steffan. Rhoddodd Harford dir i'r coleg a phrydlesu tir ar gyfer tai newydd yn y dref, ond hefyd roedd wedi draenio cors Gorsddu a'i wneud yn rhandiroedd gerddi bwthyn, ac ar yr un pryd darparodd gyflenwad o ddŵr pur i'r dref. Arhosodd yr ystâd yn nheulu Harford tan 1949 ac yn ddiamau gwnaeth teulu Harford yn y cyfnod diweddarach lawer o 'welliannau' eraill i'r dref, megis disodli neuadd dref deulawr syml yn 1880-1 gyda'r adeilad presennol yn arddull y Frenhines Anne gan R J Withers, pensaer o Lundain, ar gyfer J B Harford. Yn 1873 roedd J B Harford yn berchen tua 8,399 erw yn Sir Aberteifi a Sir Gaerfyrddin gyda thaliadau rhent tua £5,660. Mae'r sgwâr ar groesffordd ganolog y dref wedi'i henwi ar ôl y teulu.

#### 6.4 20fed ganrif

- 6.4.1 Yn ystod yr Ail Ryfel Byd cafodd tua 110,000 o blant eu symud i Gymru a chyrrhaeddodd gannoedd gorsaf Llanbedr Pont Steffan i gael eu cartrefu yn y pentrefi a'r ffermydd cyfagos.
- 6.4.2 Ymsefydlodd llawer o Bwyliaid yn yr ardal hon yn ystod neu ar ôl yr Ail Ryfel Byd ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi gwasanaethu gyda lluoedd y cynghreiriaid. Ar ôl y rhyfel dewisodd llawer o Bwyliaid aros ym Mhrydain yn hytrach na dychwelyd i'w mamwlad a oedd wedi troi'n wladwriaeth Gomiwnyddol. Mae llawer ohonynt wedi cael eu claddu ym mynwent Eglwys Sant Pedr, megis Leokadia Krzepisz, Kopczyńska gynt (1907-1980) a dderbyniodd Groes Dewder Gwlad Pwyl yn yr Ail Ryfel Byd am ei gwasanaeth fel swyddog yng ngwrthsafiad Gwlad Pwyl.
- 6.4.3 Mae hanes mwy diweddar y dref wedi'i gofnodi mewn cyfres o adeiladau adeg rhyfel, gan gynnwys man gwyllo, caer danddaearol a chofgolofn. Yn ystod yr 20fed ganrif roedd Llanbedr Pont Steffan wedi parhau i ehangu yn enwedig ar gyrion y dref gyda stadau diwydiannol bach a datblygiadau tai modern bach.
- 6.4.4 Caeodd Gorsaf Llanbedr Pont Steffan yn 1965 er bod y lein wedi parhau ar agor i draffig llaeth tan 1973.
- 6.4.5 Yn 1971 daeth Coleg Dewi Sant yn Goleg Prifysgol pan ymunodd â Phrifysgol Cymru. Mae'r campws wedi datblygu'n fawr ers ei flynyddoedd cynnar pan mai adeilad Cockerill oedd unig gartref gweithgareddau'r coleg. Agorwyd Adeilad Caergaint yn 1897 a chodwyd fersiwn newydd yn ei le yn 1973. Ymddangosodd y llyfrgell newydd yn 1966, Adeilad y Celfyddydau yn 1971, a Theatr Cliff Tucker yn 1995. Cafodd Coleg Prifysgol Dewi Sant ei ailenwi'n Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan yn 1996. Cwblhawyd Adran Ddiwinyddiaeth newydd ym mis

Hydref 1997. Adnabyddir adeilad gwreiddiol y coleg fel Adeilad Dewi Sant erbyn hyn, ac mae'n gartref i ystafelloedd darlithio, capel, gwasanaethau gweinyddol ac Adran y Gymraeg. Mae datblygu hefyd wedi digwydd ar gyfer llety myfyrwyr gydag adeiladu neuaddau modern megis Carl Lofmark a Roderick Bowen ar gyfer myfyrwyr presennol Llanbedr Pont Steffan. Mae'r rhan fwyaf o'r datblygiadau modern wedi digwydd ar ochr orllewinol y campws i ffwrdd o ganol hanesyddol y dref.


## 7. DADANSODDIAD GOFODOL

### 7.1 Ffurf a Chynllun

- 7.1.1 Mae'r ardal gadwraeth wedi'i llunio o amgylch craidd hanesyddol y dref gan ganolbwyntio ar y Stryd Fawr, Stryd y Bont a Stryd y Coleg, ac mae hefyd yn cynnwys ardal campws y brifysgol yn benodol.
- 7.1.2 Ar ffurf cynllun mae patrwm cynnar y dref ganoloesol fach i'w weld yn glir o'r llinellau adeiladu ar hyd ffordd lydan sy'n dal i nodi safle'r farchnad (y Stryd Fawr erbyn hyn). Mae lleiniau adeiladu yn adlewyrchu'r lleiniau bwrdais gwreiddiol sy'n gul ar y brif ffordd ac yn ymestyn yn ôl yn hwy nag y maent yn llydan.
- 7.1.3 Roedd y ffyrdd a'r traciau cynnar a ddangosir ar y mapiau cynharaf yn rhagflaenwyr y system ffyrdd bresennol, a'r mwyaf amlwg yw'r gyffordd ganolog gyda'r prif ffyrdd i'r gogledd, gorllewin a'r de-ddwyrain o'r fan hon.
- 7.1.4 Tyfodd y dref gynnar gryn bellter o'r bont ar y groesfan dros afon Teifi, yn ôl pob tebyg er mwyn osgoi'r gorlifdir sydd heddiw yn achosi problemau ar gyfer y datblygiadau mwy newydd sydd agosaf at yr afon, megis archfarchnad y Co-op.
- 7.1.5 Mae natur serpentaidd y Stryd Fawr yn ymuno â Stryd y Bont yn cyfyngu ar olygfeydd hwy trwy'r dref. Anaml felly y gellir gweld llawer o hyd a lled y dref ehangach o unrhyw leoliad penodol, gan helpu i gynnal ei chymeriad o fod yn dref farchnad wledig fach.
- 7.1.6 Mae llawer o'r enwau lleoedd a strydoedd modern yn adlewyrchu defnyddiau tir a meysydd gweithgarwch blaenorol gan gynnwys Stryd y Felin sy'n arwain at Faesyfelin, Stryd Sant Tomos, Ffordd y Porthmyn, Stryd yr Eglwys a Stryd y Farchnad (gan nodi safle'r hen farchnad da byw).
- 7.1.7 Tra bod dwysedd datblygu uchel o fewn y dref, mae'n gywasgedig ac yn newid yn gyflym i gefn gwlad prin ei boblogaeth unwaith y bydd rhywun yn gadael ffiniau'r dref. Mae datblygiadau modern gwasgarog wedi bod yn gymharol gyfyngedig.



*Ffigurau 14 i 17 Enghreifftiau o waliau terfyn cerrig o fewn canol tref Llanbedr Pont Steffan*



*Ffigurau 18 a 19 Enghreifftiau o ffin gardd flaen draddodiadol ac un newydd gwael*

## 7.2 Ffiniau

- 7.2.1 Mae'r dref yn gnewyllol ac wedi'i hamgylchynu gan gaeau a mannau agored i'r gorllewin, i'r gogledd ac i'r dwyrain gyda gorlifdir afon Teifi yn creu ffin a lleoliad pwysig i'r de.
- 7.2.2 Mae datblygiadau tai newydd wedi'u lleoli'n bennaf ar gyrion y dref ac nid ydynt yn effeithio fawr ddim ar gymeriad hanesyddol yr ardal ddynodedig.

- 7.2.3 Mae'r rhan fwyaf o linellau adeiladau hanesyddol yn syth ar y palmentydd neu'r ffyrdd ond mae llawer o waliau terfyn cerrig nodweddiadol mewn mannau o hyd. Mae'r rhain yn ddomestig eu natur ar y cyfan ac ar hyd strydoedd cefn, ac i bob golwg yn perthyn i ddatblygiad y dref yn y 19eg ganrif. Mae'r ymdeimlad o amgáu ar hyd y rhan fwyaf o strydoedd yn bennaf o ganlyniad i linellau adeiladu cyson i'r ffordd / palmant.
- 7.2.4 Mae gan y tai Fictoraidd diweddarach ar Stryd y Bont a Heol yr Orsaf erddi blaen bach nodweddiadol wedi'u hamgáu'n bennaf gan waliau bach wedi'u rendro a rheiliau ar eu pennau. Mae'r nodwedd hon hefyd i'w weld mewn rhannau eraill o'r dref yn achlysurol. Mae llawer o adeiladau newydd modern, rhai yn cyd-fynd â'r adeiladau gwreiddiol a rhai triniaethau modern i ffiniau gerddi sy'n erydu'r nodwedd gymeriad hon sy'n golygu bod modd nodi datblygiad diweddarach yn hawdd o graidd hanesyddol y dref.

### 7.3 Golygfeydd a Ffyrdd Dynesu

- 7.3.1 Prin iawn y gwelir Llanbedr Pont Steffan fel anheddiad o'r ardal ehangach. Felly mae'r ffyrdd dynesu at y prif ffyrdd yn bwysig fel 'pyrth' i'r ardal gadwraeth. Nhw sy'n gosod y naws a'r cymeriad wrth gyrraedd ac yn gyffredinol mae'r ffurf adeiledig yn mynd yn hŷn y mwyaf agos y dewch at ganol y dref.
- 7.3.2 Mae'r ffordd ddynesu o'r de-ddwyrain, o Lanymddyfri a Chaerfyrddin, yn croesi afon Teifi a'r gorlifdir ar draws pont garreg fawr a adeiladwyd yn 1932, yn ôl pob tebyg yn agos at neu ar safle cyfres o bontydd hŷn. Gwyddom fod pont ganoloesol yn bodoli trwy gyfeiriad Gerallt Gymro at 'Pons Stephani' (Pont Steffan) yn 1188 a'i bod wedi'i disodli o leiaf unwaith rhwng y cyfnodau hyn (Lewis 1833). Mae'r bont bresennol yn drawiadol gyda gorffeniad cerrig garw a rhai lampau haearn hen ffasiwn. Mae'r ffordd syth ar draws y gorlifdir yn croesi'r bont a cheir cipolwg cyntaf o ben deheuol Stryd y Bont. Gyda chaer danddaearol adfeiliedig ar y chwith ac archfarchnad fodern amlwg ar y dde mae'r ffordd, sydd o led dda, yn mynd i mewn yn gyflym i'r ardal adeiledig breswyl yn bennaf ar ben deheuol Stryd y Bont. Mae'r ffordd wedi'i datblygu bron yn gyfan gwbl, gan droi'n ardal o ddatblygu preswyl dwys yn gyflym mewn cyferbyniad llwyr â'r ffordd ddynesu ar draws y gorlifdir a'r caeau agored. Yn hanesyddol roedd pen deheuol Stryd y Bont yn ardal fwy diwydiannol gyda chofnodion o felin, lladd-dy, gof a thafarndai. Mae'r ffordd yn codi'n raddol i fyny'r bryn i ganol masnachol y dref.
- 7.3.3 Mae'r ffordd ddynesu o'r gogledd-orllewin o Aberaeron a'r arfordir ar hyd yr A482 yn mynd trwy ddyffryn hir gyda brynau isel, caeau agored, ffermydd gwasgaredig ac ardaloedd o goetir. Dim ond yn agos iawn at Lanbedr Pont Steffan y ceir cipolwg ar stadau tai modern ac ambell i adeilad diwydiannol / masnachol a bythynnod o'r 19eg ganrif. Yn fuan mae'r A485 o Dregaron yn ymuno â'r ffordd.

- 7.3.4 Mae'r ffordd o Dregaron yn llwybr hanesyddol arall sy'n dilyn llinell Dyffryn Teifi. Unwaith eto caeau agored, bryniau bach a choetir sydd amlycaf yn y dirwedd ynghyd â ffermydd gwasgaredig. Ardal fach o ddatblygi diwydiannol yw'r arwydd cyntaf bod rhywun yn dod i mewn i Lanbedr Pont Steffan o'r cyfeiriad hwn, yna mae'r ffordd yn ymuno â'r A482 o Aberaeron. O'r fan hon mae'r datblygiad preswyl cyntaf yn dyddio o ddechrau neu ddiwedd yr 20fed ganrif, er bod man agored y Clwb Rygbi a'r gerddi blaen mawr yn tynnu sylw oddi wrth y ffurf adeiledig. Ymhellach ymlaen mae'r mannau agored ger y Bryn, y parc cyhoeddus Parc yr Orsedd, y gofgolofn a chae bach hefyd yn lleihau effaith datblygiad adeiledig y filas hardd o ddiwedd y cyfnod Fictoraidd/ / Edwardaidd a'r tai a bythynnod llai sy'n gysylltiedig ag ardal yr hen orsaf yn y dref ar y chwith cyn cyrraedd Stryd y Coleg a datblygiad adeiledig dwysach y ganolfan fasnachol estynedig gyda'r brifysgol ar y chwith.
- 7.3.5 Fel y nodir uchod mae golygfeydd o fewn y dref yn gyfyngedig oherwydd y dwysedd datblygu a'r cynllun ffordd. O'r golygfeydd allan o'r dref, lle maent i'w cael, datgelir cefn gwlad, coetiroedd a'r brynau.
- 7.3.6 Mae golygfeydd hyd canolig ar hyd ffyrdd mwy syth fel Stryd y Coleg yn ychwanegu at yr ymdeimlad o gyrraedd canol y dref. Mae'r llinellau adeiladu yn bwysig o ran cyfrannu at fframio'r golygfeydd hyn ac arwain y llygad ar hyd y ffordd a'r datblygiad cyfagos tuag at ganol y dref.
- 7.3.7 Mae gan Lanbedr Pont Steffan lawer o lonydd bach a mynedfeydd i'r ardaloedd cefn y tu ôl i flaenau strydoedd. Olion traciau hanesyddol neu fynedfeydd coetsis yw'r rhain yn aml ac maent yn cynnig golygfeydd byr trwy'r llinellau adeiladu ac yn creu ymdeimlad o ddarganfod a diddordeb.



***Ffigurau 20 a 21 Mae lonydd cefn hanesyddol a mynedfeydd coetsis yn creu ymdeimlad o ddarganfod***

## 7.4 Mannau Agored a Gwyrdd

- 7.4.1 Nid yw dwysedd datblygu ar hyd y prif strydoedd yn gadael llawer o le ar gyfer mannau agored, ac mae'r rhain i'w gweld yn bennaf y tu ôl i'r ganolfan fasnachol. Serch hynny, oherwydd maint bach y dref nid yw mannau agored byth yn bell i ffwrdd ac, yn enwedig lle mae iddynt arwyddocâd hanesyddol, maent yn ychwanegu'n fawr at gymeriad y dref.
- 7.4.2 Mae'n bosibl mai'r man agored mwyaf amlwg yw tiroedd y brifysgol y mae rhannau ohonynt wedi cael eu hadnewyddu'n ddiweddar ac sy'n darparu man agored dymunol iawn i fyfyrwyr a phobl leol eu mwynhau. Maent yn darparu lleoliad ar gyfer adeiladau rhestredig y brifysgol a safle ar gyfer digwyddiadau, ffeiriau a marchnadoedd amrywiol. Maent yn gymysgedd o goed wedi'u plannu'n feddylgar ar ffurf gardd goed, dyluniad gerddi modern a mannau agored wedi'u tirlunio'n galed.

***Ffigurau 22 a 23 Tiroedd wedi'u hadnewyddu y Brifysgol a Marchnad y Bobl Llanbedr Pont Steffan a gynhelir dwywaith y mis***



- 7.4.3 Ar hyd Ffordd y Gogledd (yr A482) mae nifer o fannau agored gwyrdd amlwg. Mae'r rhain yn helpu i ddarparu newid mwy graddol o gefn gwlad i'r dref wrth ddynesu o'r gogledd. Mae gwerth cymunedol i'r gofgolofn a Pharc yr Orsedd hefyd ac mae'r parc yn boblogaidd gyda llawer o bobl leol. Maent yn agos at ganol y dref ac yn cyfrannu at ei chymeriad tref farchnad wledig fach.



***Ffigurau 24 a 25 Coed wedi'u plannu ar ffurf gardd goed a mannau agored modern ymarferol i fyfyrwyr***



*Ffigurau 26 a 27 Parc yr Orsedd a'r gofgolofn*



*Ffigur 28 Y Bryn fel y'i gwelir o Barc yr Orsedd ar draws y cae yn ei erddi mawr wedi'u tirlunio*



*Ffigurau 29 a 30 Y manau gwyrdd agored a'r gorchudd coed o amgylch yr eglwysi i'r gorllewin o Lanbedr Pont Steffan*



- 7.4.4 Mae mynwent Eglwys Sant Pedr, tir yr Eglwys Gatholig, a'r parc bach i'r de o'r rhain yn darparu ardal ddwys arall o fannau agored gwyrdd gyda gorchudd coed ar ochr orllewinol y dref. Dyma'r porth i'r dref o'r gorllewin, er bod lledaeniad y datblygu ar hyd ochr ogleddol Heol Pontfaen yn lleddfu rhywfaint ar y newid sydyn o gefn gwlad i dref. Mae'r ochr ddeheuol yn cadw ei chaeau â'r agored (safle'r sioe amaethyddol), cae criced / caeau chwarae'r coleg a llwybr afon poblogaidd ar hyd llednant Teifi, Nant Creuddyn. Adeiladwyd y pafiliwn criced, Adeilad Rhestredig Gradd II, yn 1909 gan Ll. Bankes-Price, pensaer, mewn ymgynghoriad â'r Athro Tyrrel Green o Goleg Dewi Sant. Mae'r ardaloedd gwyrdd hyn yn helpu i ddiffinio'r ymyl datblygu er bod hyn yn cael ei golli ar ochr ogleddol y ffordd. Mae'r cae criced, er ei fod y tu allan i ffin yr ardal gadwraeth, yn arwyddocaol fel lleoliad y pafiliwn rhestredig ac oherwydd ei gysylltiad hanesyddol â'r brifysgol yn ogystal â'i gyfraniad at safle / porth yr ardal gadwraeth.
- 7.4.5 Ar ochr ddeheuol Llanbedr Pont Steffan mae safle'r hen gomin (fel y dangosir ar fap AO 1887) sy'n faes parcio cyhoeddus mawr erbyn hyn. Serch hynny, mae'n fan agored deniadol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda gyda choed a blodau yn aml ac wedi'i amgylchynu ar dair ochr gan bensaernïaeth bwthyn diddorol. Mae'r terasau ar yr ochr orllewinol yn dwyn enw'r tîrffediannwr cychwynnol, sef Rhes Harfford.
- 7.4.6 Mae mannau agored llai eraill i ffwrdd o'r prif strydoedd hefyd yn ychwanegu diddordeb, megis maes parcio archfarchnad Sainsbury's / y llyfrgell ar safle'r hen farchnad da byw sydd wedi'i uwchraddio'n ddiweddar gyda choed, meinciau a phalmentydd newydd. Yn anffodus mae ychydig o ardaloedd eraill megis y man agored gwyrdd i'r dwyrain o faes parcio Gwesty'r Llew Du, yn amharu ar ddiddordeb esthetig y dref oherwydd ei bod yn cael ei defnyddio ar gyfer tipio sbwriel. Fodd bynnag, mae hyn yn anarferol gan fod y mannau agored yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal. Mae'n debyg bod yr ardal hon mewn perchnogaeth breifat ac felly nid yw'n cael ei rheoli yn yr un ffordd â mannau agored eraill. Ar y mapiau hanesyddol fe'i dangosir fel perllan. Gellid gwella'r ardal hon mewn modd cadarnhaol a gallai hyd yn oed fod yn ased i'r dref / gymuned.





*Ffigur 31 Maes parcio cyhoeddus y Comin*



*Ffigur 32 Y man agored gwyrdd i'r dwyrain o faes parcio'r Llew Du*

Ffigur 33 Map o'r Ardaloedd Cymeriad



  
**Cyngor Sir Ceredigion**  
**Ceredigion County Council**  
 Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
 Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
 Ffôn/Tel. 01545 570881

**Llanbedr Pont Steffan / Lampeter**

- Allwedd / Key**
- ▭ **Ardal Gadwraeth**
  - Ardaloedd Cymeriad Llanbedr Pont Steffan**
  - Campws y Brifysgol**
  - Canol Tref Hanesyddol a Masnachol**
  - Heol y Bont Ddeheuol**
  - Ardal Orllewinol**
  - Ardal Ffordd y Gogledd**
  - Y Comin**

**Graddfa / Scale: 1:4,210**  
**Argraffwyd ar / Printed on: 2024-02-23**

© Osprey Books in partnership with the Ordnance Survey, 2024  
 © Osprey Books in partnership with the Ordnance Survey, 2024  
 © Local Government Information House, Limited, copyright and database rights, 2024. 100002419  
 © Her Majesty's Stationery Office, 2024. Crown Copyright and database rights, 2024. 100002419  
 © Her Majesty's Stationery Office, 2024. Crown Copyright and database rights, 2024. 100002419

G N

0 100 200 m

## 8. CYMERIAD PENSAERNIOL

### 8.1 Ardaloedd Cymeriad

8.1.1 Gellir rhannu Llanbedr Pont Steffan yn chwe ardal gymeriad benodol:

- Campws y Brifysgol
- Canol Tref Masnachol a Hanesyddol
- De Stryd y Bont
- Ardal y Gorllewin
- Ardal Ffordd y Gogledd
- Y Comin

### 8.2 Ardal Cymeriad 1: Campws y Brifysgol – Traddodiadau, Deunyddiau a Manylion Adeiladu

8.2.1 Mae'r brifysgol yn gymysgedd diddorol o Adeiladau Rhestredig Sioraidd gyda phensaernïaeth o ansawdd uchel ac adeiladau modern o arddulliau ac ansawdd gwahanol. Mae'r raddfa bennaf yn fawr o ran ôl troed ond dau lawr yn unig yw'r prif adeiladau addysgu a gweinyddu. Mae llety myfyrwyr o ansawdd pensaernïol gwaelach yn gyffredinol, eto gydag ôl traed mawr ond rhwng dwy a phedwar llawr.

8.2.2 Mae adeiladau gwreiddiol Coleg Dewi Sant yn Adeiladau Rhestredig Gradd II\* ac fe'u hadeiladwyd rhwng 1822-7 gan John Foster o Fryste gan ddefnyddio dyluniadau cynharach 1819-21 gan C R Cockerell. Mae'r cynllun colegol yn seiliedig ar brototeipiau Rhydychen o'r 17eg ganrif mewn arddull Gothig Tuduraidd symlach. Mae'r rhesi o amgylch y cwadrangl traddodiadol yn adeiladau dau lawr wedi'u dylunio ar gyfer llety myfyrwyr ar dair ochr (gyda mynediad i'r ystafelloedd trwy risiau o'r cwadrangl) a chapel a neuadd wedi'u gosod yn gymesur ar y pedwerydd ochr.



*Ffigurau 34 a 35 Y tu mewn i'r cwad a wyneb allanol adeiladau gwreiddiol y coleg*

Mae llety'r Prifathro ar ongl ogledd-orllewinol y cwad yn wynebu tuag at allan, ac mae tafluniad siâp T o'r ochr ogleddol yn cynnwys llyfrgell ar y llawr cyntaf ar ongl sgwâr i'r neuadd, capel ac ystafelloedd darlithio yn y ddwy adain. Maent wedi'u rendro (gyda'r defnydd lleiaf posibl o gerrig nadd) gyda thoeau llechi a simneiau crib. Fe'u disgrifir fel "an exceptional group of educational buildings of considerable national historic importance and significant architectural quality. Important also for the association with two major architects" (Cadw 1964 *Disgrifiad o'r Adeilad Rhestredig*).

- 8.2.3 Mae Porthordy'r Brifysgol (yr Amgueddfa erbyn hyn) ar Stryd y Coleg o'r un arddull bensaernïol er ar raddfa lawer llai. Mae'n Adeilad Rhestredig Gradd II.
- 8.2.4 Mae manylion pensaernïol yr adeiladau hyn yn cynnwys rendr llwyd (dros garreg rwbel yn ôl pob tebyg), toeau llechi, ffenestri adeiniog cwarel bach haearn bwrw gyda mowldin capan a phennau bwa Tuduraidd, terfyniadau to, tyrau gyda siafft wythonglog a chromen, bwtresi croeslin, cwrs diferu a chwrs bondo wedi'i fowldio, mynedfeydd bwaog a chynlluniau ffenestri cymesur. Am fanylion pensaernïol llawn gweler y disgrifiad o'r adeilad rhestredig.



***Ffigurau 36 a 37 Yr adeilad gweinyddol modern a'r prif bloc addysgu***

- 8.2.5 Mae'r blociau addysgu modern, y llyfrgell a'r adeiladau gweinyddol o ddeunyddiau modern gyda dyluniad ymarferol yr 20fed ganrif. Mae rhai adeiladau wedi cael eu hadnewyddu yn yr 21ain ganrif gyda dyluniad modern da, ond mae llawer o adeiladau iwtilitaraidd i'w weld o hyd. Mae'r rhain o frics brown neu lwydfelyn yn bennaf gyda thoeau teils llechi neu glai, a manylion rendr wedi'i baentio cyferbyniol. Mae rhywfaint o gladin pren a metel, amrywiaeth o driniaethau ffenestri a thoeau, a phaneli solar.
- 8.2.6 O fewn y campws mae eiddo preswyl traddodiadol gwag o'r enw Glandulas House sydd i'w weld ar Fap Degwm y 1840au a gafodd ei ymestyn yn ddiweddarach gyda phlanhigfa fawr i'r dwyrain. Mae'n adeilad mawr o ddiddordeb hanesyddol ond mewn cyflwr gwael ac yn amharu'n weledol ar y gwaith gwella sydd wedi cael ei wneud ar weddill y campws.



*Ffigur 38 Rhan hynaf Glandulas House*

### **8.3 Ardal Cymeriad 2: Canol Tref Masnachol a Hanesyddol – Traddodiadau, Deunyddiau a Manylion Adeiladu**

- 8.3.1 Mae gogledd Stryd y Bont yn llinell ddi-dor i raddau helaeth gyda'r Stryd Fawr i'r gorllewin gan ffurfio'r ganolfan fasnachol a hanesyddol. Mae Stryd y Coleg, sydd hefyd yn fasnachol yn bennaf, yn ffurfio ffin orllewinol y campws. Dyma'r ardaloedd adeiledig mwyaf dwys ac, yn unol â'u statws hanesyddol, maent yn cynnwys eu pensaernïaeth fwyaf a mwyaf trawiadol. Y ffurf gyffredinol yw dau neu, yn fwy aml, tri llawr a chyfuniad cain o arddulliau pensaernïol Sioraidd a Fictoraidd. Ceir cymysgedd o ddeunyddiau adeiladu traddodiadol a manylion pensaernïol sy'n creu montage pensaernïol diddorol o'r cyfnod pwysig hwn yn hanes Llanbedr Pont Steffan. Mae nifer o'r adeiladau mwyaf diddorol i'w gweld isod.



***Ffigurau 39 i 44 (o'r chwith uchaf i'r dde gwaelod): Neuadd y Dref; adeilad cornel ar gyffordd y Stryd Fawr a Stryd y Coleg (Sgwâr Harffordd); hen Fanc Lloyds; Rhif 30 i 32 y Stryd Fawr; Tafarndai'r Royal Oak a'r Llew Du (y ddau yn Adeiladau Rhestredig Gradd II)***



*Ffigur 45 Golygfa gyffredinol ar hyd y Stryd Fawr*



*Ffigur 46 Ochr ddeheuol Sgwâr Harfford*





*Ffigur 47 Ochr ogleddol Sgwâr Harfford a'r olygfa i fyny Stryd y Coleg*



*Ffigurau 48 a 49 Yr Hen Swyddfa Bost a Ricketts (Dresden ac Ystrad House erbyn hyn) ar Stryd y Coleg*

8.3.2 Y prif ddeunyddiau adeiladu yw carreg leol, brics coch a rendr (wedi'i baentio'n bennaf a lliwiau amrywiol). Defnyddir pren ar gyfer manylion megis ar estyll tywydd, ac mae pwyslais llorweddol cryf ar y llawr gwaelod gyda llawer o'r blaenau siopau traddodiadol wedi'u hategu gan lin-gyrsiau ar lefel y llawr cyntaf. Mae gan adeiladau unigol bwyslais fertigol yn bennaf gan eu bod yn fwy tal nag y maent yn llydan, ond o'u cymryd fel grŵp ar hyd y stryd mae'r pwyslais o'r manylion, gosodiad ffenestri, blaenau siopau, canopïau, cyrsiau llinynnol, llinellau to ac ati yn llorweddol.

8.3.3 Mae'n debyg mai canol y dref sydd â'r ffenestri hanesyddol sydd wedi'u cadw orau yn yr ardal gadwraeth gan gyfrannu'n fawr at ei chymeriad hanesyddol. Ategir y rhain gan nodweddion pensaernïol llai eraill megis portshys, mynedfeydd siopau gyda theils, rhai blaenau siopau traddodiadol, stepiau drws cerrig naturiol, ardal fach o goblau wedi'u cadw, architraffau drysau a nodweddion eraill.



***Ffigurau 50 i 55 Enghreifftiau o fanylion pensaernïol yng nghanol y dref***

- 8.3.4 Mae nifer o adeiladau talcen blaen, a gall rhai ohonynt awgrymu adeilad hŷn sydd wedi'i ailwynebu yn ddiweddarach. Mae'n bosibl bod rhai o'r ychydig adeiladau deulawr yng nghanol y dref hefyd yn hŷn nag y mae eu hedrychiad cychwynnol yn ei awgrymu, megis Dresden House (Ricketts) ar Stryd y Coleg a allai ddyddio o'r 18fed ganrif. Gellid comisiynu gwaith ymchwil pellach yn yr ardal hon.
- 8.3.5 Mae'r strydlun yn un o ffyrdd llydan gyda llinellau adeiladu di-dor, mynedfeydd coetsis a lonydd bach neu strydoedd sy'n arwain at ardaloedd iard gefn y tu ôl i'r prif strydoedd. Mae'r palmentydd yn llydan gyda cherrig palmant concrit modern, rhai celfi stryd modern wedi'u dylunio'n draddodiadol (arwyddion, bolardiau, biniau a phlanhigion) a goleuadau stryd modern syml mewn arddull gain a heb fod yn ymwithiol. Mae ychydig o ddiwylliant caffi stryd. Mae rhywfaint o le i wella'r strydlun yn enwedig o ran palmentydd, llinellau ffordd wedi'u paentio, arwyddion priffyrdd, dyluniad blaenau siopau modern gwael, a chysondeb dodrefn stryd.

#### 8.4 Adran Cymeriad 3: De Stryd y Bont – Traddodiadau, Deunyddiau a Manylion Adeiladu

- 8.4.1 Mae rhan ddeheuol Stryd y Bont yn ardal breswyl o ddiwedd y 19eg ganrif / dechrau'r 20fed ganrif bron yn gyfan gwbl. Yn bennaf mae'n cynnwys tai teras byr neu dai pâr dau lawr. Mae'r unffurfiaeth o fewn pob teras neu bâr o dai yn awgrymu bod pob un wedi cael ei adeiladu fel prosiect unigol gan adeiladwyr annibynnol. Yr eiddo mwyaf gogleddol yw'r cynharaf ohonynt.
- 8.4.2 Mae'r tai teras ym mhen gogleddol y stryd (hyd at Rif 60 ar yr ochr ddeheuol a Rhif 43 ar yr ochr ogleddol wedi'u hadeiladu ar un llinell adeiladu yn erbyn y palmant heb unrhyw erddi blaen. Maent yn fach o ran graddfa yn gyffredinol, yn gyn fythynnod gweithwyr efallai, ac yn gyffredinol mae ganddynt ddwy ffenestr ar y llawr cyntaf a ffenestr fae ar y llawr gwaelod a drws ffrynt. Maent yn syml ond yn gain gydag architrafau ffenestri a drysau wedi'u rendro, drychiadau blaen wedi'u rendro a'u paentio (dros gerrig rwbl mae'n debyg) a simneiau cerrig. Ceir gwyrriad achlysurol oddi wrth y patrwm safonol hwn, megis Rhif 46 sydd â ffryntiad dwbl ac sydd â mwy o fanylion ar ei architrafau, a allai awgrymu iddo gael ei adeiladu ar gyfer rhywun â statws ychydig yn uwch megis fforman neu oruchwyliwr. Mae rhai o'r tai ar y pen gogleddol wedi cael eu newid (neu o bosibl eu hadeiladu fel) siopau bach, ac mae rhai wedi cadw eu blaenau siopau Fictoraidd.
- 8.4.3 Mae pen deheuol Stryd y Bont yn cynnwys tai preswyl o ddechrau'r cyfnod Edwardaidd / diwedd y cyfnod Fictoraidd mewn terasau byr neu barau. Maent yn lletach ac yn dalach na'r eiddo yn y pen gogleddol ac mae ganddynt erddi blaen bach yn aml gyda walïau a rheiliau

bach, dwy ffenestr fae ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf, gyda ffenestr llawr cyntaf arall, drws ffrynt ac weithiau ffenestri 2.5 llawr uwchben. Eto mae manylion architraf o amgylch rhai ffenestri a drysau, conglfeini, paneli addurnol ac mae'r rhan fwyaf wedi'u gwneud o rendr wedi'i baentio. Mae gan rai estyll tywydd addurnedig a thalcen a rennir, ac mae gan rai lloriau seler. Ychydig sydd wedi cadw eu ffenestri gwreiddiol.



*Ffigurau 56 a 57 Bythynnod teras nodweddiadol ym mhen gogleddol Stryd y Bont a Rhif 46 sydd yn fwy addurnedig gyda blaen dwbl addurnol*



*Ffigurau 58 a 59 Arddulliau tebyg ond gwahanol o fanylion addurniadol ar deras byr a dau dŷ pâr ym mhen deheuol Stryd y Bont*

## 8.5 Ardal Cymeriad 4: Yr Ardal Orllewinol – Traddodiadau, Deunyddiau a Manylion Adeiladu

8.5.1 Ym mhen gorllewinol y Stryd Fawr mae clwstwr bach o sefydliadau crefyddol ac addysgol o bensaernïaeth wahanol sy'n arddangos arddulliau pensaernïol nodweddiadol cyfnodau amrywiol o bensaernïaeth sifil, sef:

- Yr Hen Ysgol Wladol a'r Tŷ / Neuadd yr Eglwys gysylltiedig a ddyluniwyd gan W B Moffat ac a agorwyd yn 1850, wedi'i hadeiladu o gerrig yn yr arddull Gothig Tuduraidd gyda thoeau llechi serth a manylion cerrig cyferbyniol. Adeilad Rhestredig Gradd II.

- Capel Shiloh (Methodistiaid Calfinaidd Cymreig), adeiladwyd yn 1775 a'i ailadeiladu yn 1806 ac eto yn 1874. Cynlluniwyd y capel presennol, dyddiedig 1874, gan y pensaer Richard Owen o Lerpwl ac mae wedi'i adeiladu o gerrig yn yr arddull Romanésg.
- Eglwys Gatholig a Henaduriaeth Our Lady of Mount Carmel wedi'i chynllunio gan 'T H B Scott' o Lundain a'i hadeiladu rhwng 1939-40. Wyneb allanol plastr garw gwyngalchog syml gyda tho llechi serth. Adeilad Rhestredig Gradd II am ei fod yn un o'r enghreifftiau gorau o eglwysi canol yr 20fed ganrif yng Ngorllewin Cymru.
- Eglwys y Plwyf Sant Pedr, 1867-70 gan R J Withers, pensaer o Lundain. Un o'r eglwysi Gothig Uchel Fictoraidd mwyaf nodedig yng Ngorllewin Cymru. Wyneb gerrig gydag addurniadau cerrig nadd, tŵr porth uchel i'r de-orllewin. Adeilad Rhestredig Gradd II.
- Yr Hen Ysgol Ramadeg, adeiladwyd yn 1823 ar gyfer yr ysgol ramadeg a sefydlwyd yn 1805 gan y Parch. Eliezer Williams ac un o'r ysgolion mwyaf nodedig yng Ngorllewin Cymru. Enghraifft dda o adeilad ysgol fach ar ddechrau'r 19eg ganrif. Adeilad Rhestredig Gradd II.

- 8.5.2 Yn ogystal, mae pâr o dai tref sylweddol a godwyd yn gynnar yn y 19eg ganrif sydd hefyd yn Adeiladau Rhestredig Gradd II. Mae Gorsaf yr Heddlu, sydd wedi'i gwneud o gerrig gyda thoeau llechi serth ac sydd i'w weld yn dyddio o ddiwedd Oes Fictoria / dechrau'r 20fed ganrif yn ôl ei harddull pensaernïol celf a chreffft. Mae teras byr o fythynnod o ddiwedd Oes Fictoria hefyd sydd, er gwaethaf newidiadau diweddarach, â rhywfaint o ddiddordeb pensaernïol gyda'u mowldinau capan drws addurnedig, architrafau ffenestri, ffenestri bae a chonglfeini.
- 8.5.3 Nodweddir yr ardal hon hefyd gan ei mannau agored gwyrdd fel y disgrifir uchod (7.4.4). Mae'n llawer llai datblygedig na chanol y dref ac mae iddi gymeriad tawel gyda theimlad o le gan greu porth i'r ardal gadwraeth o'r gorllewin.



**Ffigurau 60 a 61 Yr Hen Ysgol Wladol a'r Eglwys Gatholig Rufeinig**

## 8.6 Ardal Cymeriad 5: Ardal Ffordd y Gogledd – Traddodiadau, Deunyddiau a Manylion Adeiladu

- 8.6.1 Mae'r ardal hon yn cynnwys Ffordd y Gogledd, y Bryn, Heol yr Orsaf a Stryd y Felin. Nid yw'r hen orsaf yn bodoli bellach ac erbyn hyn mae'n barc diwydiannol bach sydd y tu allan i'r ardal gadwraeth.
- 8.6.2 Strydoedd preswyl yw Ffordd y Gogledd, Stryd y Felin a Heol yr Orsaf. Maent yn amrywio o ran eu pensaernïaeth, a ddisgrifir isod, ac mae ardal y Bryn yn un o fannau agored gwyrdd yn bennaf sy'n cynnwys y Parc a'r gofgolofn (gweler 7.4.3). Mae'r ardal yn darparu newid o gefn gwlad i dref gyda'r ffurf adeiledig yn ennill tir yn raddol.
- 8.6.3 Mae gan y filas sengl sylweddol a'r tai pêr ar Ffordd y Gogledd bensaernïaeth unigryw iawn. Adeiladwyd y ddau adeilad cyntaf erbyn 1887 fel tai sengl ym mhen gogleddol yr ardal hon. Fe'u dilynwyd yn fuan gan y tai eraill rhwng y rhain a Stryd y Felin a adeiladwyd rhwng 1887 a 1904. Mae'r tai sengl yn adeiladau dau lawr mewn arddull Fictoraidd hwyr gyda thoeau llechi talcennog a nodweddion pensaernïol addurniadol megis ffenestri bae dau lawr mawreddog, terfyniadau, teils crib addurnol, portshys a rhai ffenestri gwreiddiol. Mae ganddynt erddi blaen o faint da wedi'u hamgáu gan rai waliau cerrig gwreiddiol a rhai newydd. Roeddent yn amlwg yn eiddo ag iddynt tipyn o statws. Mae'r tai pêr yr un mor drawiadol ac mae ganddynt fanylion pensaernïol tebyg ond gyda 2.5 llawr. Mae ganddynt dalcenni cyfatebol gydag estyll tywydd addurnedig, conglfeni, ffenestri bae deulawr, toeau llechi talcennog a simneiau sylweddol (er bod y rhan fwyaf wedi'u colli). Mae rhai ffenestri gwreiddiol ac mae'r drysau ffrynt yn syml gyda golau uwchben plaen ond yn aml gyda phortshys haearn addurnedig sy'n wahanol eu cynllun ar gyfer pob pêr.



**Figurau 62 a 63 Filas sengl a pêr o ddiwedd y cyfnod Fictoraidd / dechrau'r cyfnod Edwardaidd**

Mae stepiau blaen y fynedfa yn codi statws y drws ffrynt. Mae'r gerddi blaen o faint da ac wedi'u hamgáu gan waliau uchder canolig (yn wreiddiol o gerrig yn ôl pob tebyg ond wedi'u rendro'n bennaf erbyn hyn) gyda phileri gatiâu trawiadol a thopiau pyramid. Mae rheiliau haearn gwreiddiol ar ben y waliau a gatiâu'r ardd wedi goroesi mewn rhai manau. Mae'r tai hyn i gyd wedi'u rendro'n wyn.

- 8.6.4 Mae melin yd wedi'i nodi ar Fap Degwm y 1840au ym mhen dwyreiniol Stryd y Felin ond ni chodwyd y bythynnod ar hyd y stryd tan ddiwedd y 19eg ganrif. Mae'r felin cael ei dymchwel erbyn hyn ond mae'r tŷ (Y Felin) sy'n gysylltiedig â'r felin yn dal i sefyll ac yn Adeilad Rhestredig Gradd II. Nid yw o fewn yr ardal gadwraeth ar hyn o bryd. Mae'r ardal y tu hwnt yn ddatblygiad tai modern. Rhwng diwedd y ffin bresennol a'r Felin mae pâr o fythynnod cerrig o ddiwedd y 19eg ganrif.



***Ffigur 64 Y Felin ar Stryd y Felin***



***Ffigur 65 Bythynnod o'r 19eg ganrif rhwng ffin yr ardal gadwraeth a'r Felin***

- 8.6.5 Mae'r bythynnod eraill ar Stryd y Felin yn dai teras bach o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Maent yn ddiymhongar o ran eu harddull gyda dwy ffenestr uwch ac un ar y llawr gwaelod wrth ochr y drws ffrynt. Maent wedi'u rendro gyda thoeau llechi ac mae ganddynt simneiau brics gwreiddiol da. Mae eu maint yn briodol i'w hanes a'u lleoliad ond nid oes unrhyw ffenestri na drysau gwreiddiol na nodweddion pensaernïol eraill o bwys.
- 8.6.6 Ar gornel Stryd y Felin a Ffordd y Gogledd mae Millfield Cottage o'r 18fed ganrif yn ôl pob tebyg, ac wedi'i adeiladu cyn estyniad diweddarach Llanbedr Pont Steffan yn y 19eg ganrif. Ynghyd â'r Felin a'r hen felin yd, mae'n diffinio Stryd y Felin fel ffordd sy'n ôl-ddyddio estyniad y dref tua'r gogledd. Mae Millfield Cottage yn Adeilad Rhestredig Gradd II.

- 8.6.7 Mae gan yr ardal hon lawer o waliau cerrig gwreiddiol ac mae iddi gymeriad lôn wledig / pentref gwledig, er bod ychydig o ddatblygiadau modurdy modern a gorsaf drydan yn amharu ar hyn.
- 8.6.8 Mae'r gofgolofn ar y gornel rhwng Ffordd y Gogledd a Ffordd y Bryn. Ynghyd â'r teras a'r waliau o'i amgylch mae'n Adeilad Rhestredig Gradd II. Mae'n cynnwys cerflun efydd o 1921 gan W Goscombe John wedi'i osod o fewn teras lawnt uchel gyda gwelyau blodau a wal derfyn gerrig gyda rheiliau haearn ar ei phen wedi'u dylunio gan Llewellyn Bankes-Price o Lanbedr Pont Steffan.



***Ffigur 66 Cofgolofn Llanbedr Pont Steffan***

- 8.6.9 Mae'r Bryn yn dŷ sengl sylweddol o ddiwedd y cyfnod Fictoraidd / dechrau'r cyfnod Edwardaidd ac yn gyfoes fwy na thebyg â'r filas gyferbyn, er ei fod yn rhagori yn bensaernïol (gweler Ffigur 25). Mae wedi'i wneud o frics coch gydag elfennau addurnol o gerrig a phren wedi'u paentio'n wyn cyferbyniol, gan gynnwys llin-gyrsiau, architrafau ffenestri, cwrs bondo deintell, a phaneli wal mewnosodedig.
- 8.6.10 Mae Heol yr Orsaf yn rhes o dai teras o ganol y cyfnod Fictoraidd a godwyd ar ryw adeg rhwng y 1840au a 1887, yn ddigon posibl yn ystod yr un cyfnod â'r orsaf a agorwyd yn 1866. Maent yn derasau Fictoraidd wedi'u rendro'n safonol gyda dau neu dri llawr ond llinell do



homogenaidd. Mae ganddynt nodweddion pensaernïol gwahanol ac mae ansawdd pensaernïol llawer ohonynt wedi'i danseilio trwy gael eu haddasu. Nid yw'r un tŷ yn union yr un fath â'r llall ar hyn o bryd er ei bod yn debygol iddynt gael eu hadeiladu ar gamau adeiladu byr, gyda phob cam â'i arddull wreiddiol ei hun. Mae'r nodweddion yma'n cynnwys: ffenestri bae, baeau uchder dwbl, grisiau cerrig, conglfeini, llin-gyrsiau, simneiau cerrig mawr, gerddi blaen bach gyda waliau terfyn cerrig neu wedi'u rendro a rheiliau haearn ar eu pennau. Nid oes unrhyw ddrysau na ffenestri gwreiddiol. Mae'r stryd hon yn amharu ar ansawdd cyffredinol yr ardal gadwraeth ond mae hefyd yn creu cyfle i'w gwella.



*Ffigurau 67 a 68 Enghreifftiau nodweddiadol o'r tai teras ar hyd Heol yr Orsaf*

## 8.7 Ardal Cymeriad 6: Y Comin – Traddodiadau, Deunyddiau a Manylion Adeiladu

- 8.7.1 Nodweddir yr ardal hon gan fannau agored y maes parcio (gweler 7.4.4) a'r bythynnod teras bach cyfagos ac ambell adeilad crefyddol. Mae'r ardal yn cynnwys Teras Harfford, Teras Ffynnonbedr, Rhes Fictoria, rhannau deheuol Ffordd y Porthmyn a Stryd Sant Thomas a rhan ogleddol Stryd Newydd. Mae'r raddfa yn fach ac yn ddomestig ac yn aml gydag adeiladau wedi'u lliwio'n llachar trwy ddefnyddio rendr wedi'i baentio.
- 8.7.2 Yr unig adeilad rhestredig yn yr ardal hon yw Capel Soar, capel yr Annibynwyr o 1874 a gafodd ei addasu yn 1895. Mae wedi'i wneud o blastr garw heb ei baentio gydag addurniadau stwco a tho llechi gyda ffasâd y Dadeni Fenisaid, a dyma'r adeilad amlycaf yn yr ardal hon, wedi'i leoli ym mhen de-ddwyreiniol Maes Parcio'r Comin.
- 8.7.3 Rhes Fictoria, sef rhes fach o dai teras ar ochr ddwyreiniol y maes parcio, a'r pedwar tŷ teras ym mhen gogleddol y maes parcio oedd y tai cyntaf i gael eu hadeiladu yma ac fe'u dangosir ar Fap Degwm y 1840au. Mae'n rhaid eu bod wedi'u hadeiladu'n ddiweddar y pryd hynny, a fyddai'n cyd-fynd â'u graddfa a'u dyluniad pensaernïol.



*Ffigur 69 Capel Soar*

8.7.4 Adeiladwyd y rhan fwyaf o'r tai eraill yn yr ardal hon rhwng 1840 a 1887. Maent o faint, graddfa a dyluniad tebyg. Bythynnod teras canolig eu maint ydynt gyda naill ai ffrynt dwbl neu faeau sengl dau lawr. Maent yn creu cymeriad pentrefol o amgylch y maes parcio ac ar hyd Teras Ffynnonbedr, yn bennaf oherwydd eu maint a'r rendr wedi'i baentio'n lliwgar. Mae'r tai ym mhen deheuol Teras Harfford, a elwir weithiau yn Rhes Harfford, yn uwch gyda ffryntiadau lletach, ac fe'u hadeiladwyd yn 1885 yn ôl plac ond nid ydynt i'w gweld ar fap 1887 yr AO. Mae pob eiddo wedi'i rendro, gyda manylion architraf cerrig o amgylch y ffenestri a'r drysau mewn lliw gwahanol yn aml, ac mae gan rai gonglfeini. Mae'r toeau llechi isel yn llinelllog gyda llinellau crib bron yn ddi-dor a simneiau brics da. Nid oes unrhyw ffenestri na drysau gwreiddiol.



*Ffigurau 70 a 71 Bythynnod lliwgar o ddechrau'r cyfnod Fictoraidd ger Maes Parcio'r Comin*

8.7.5 Nid yw'r datblygiad mewnlenni modern iard gefn i'r gogledd o Deras Harfford wedi cymryd fawr o sylw o'r cysondeb pensaernïol hwn. Mae adeiladau fel yr orsaf ambiwlans a'r fflatiau modern ar Rodfa'r Bryn ar raddfa lawer mwy heb lawer o fanylion pensaernïol na pharch at eu cyd-destun. Yn ogystal, nid oes gan yr adeiladau modern o fewn lleoliad ffin ddeheuol yr ardal gadwraeth, gan gynnwys yr orsaf dân, yr ysgol a'r ganolfan hamdden, lawer i'w hargymell yn bensaernïol.



*Ffigur 72 Fflatiau modern ar Rodfa'r Bryn*

## 9. ASEDAU DYNODEDIG AC ADEILADAU LLEOL PWYSIG

### 9.1 Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig

9.1.1 Mae un heneb gofrestrredig yn yr ardal gadwraeth: Twmpath Castell Llanbedr Pont Steffan (Cadw Cyf.: CD110) o fewn campws y brifysgol. Fe'i gelwir hefyd yn Gastell Steffan ac mae'n cynnwys olion mwnt canoloesol. Fe'i dangosir hyn ar y map isod.

9.1.2 O fewn Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan mae 25 o Adeiladau Rhestredig: 1 Gradd II\* (Coleg Prifysgol Dewi Sant (Adeiladau Gwreiddiol); a 24 Gradd II.

### 9.2 Adeiladau o Ddiddordeb Lleol

9.2.1 Mae dwy lefel o adeiladau o ddiddordeb lleol – y rhai a allai fodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu cynnwys ar restr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig lleol (gweler <https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/other-historic-assets/historic-assets-special-local-interest>), a'r rhai sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth.

9.2.2 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Dylai'r meini prawf ar gyfer dewis asedau gael eu llunio gan yr awdurdod lleol ond gellir eu seilio ar ganllawiau Cadw. Dylai'r dewis hefyd



fod yn seiliedig ar gyfranogiad cymunedol. Yna gall awdurdodau cynllunio ddatblygu polisïau i'w diogelu a'u gwella trwy bolisïau Cynllun Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol.

- 9.2.3 Mae adeiladau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a golwg ardal gadwraeth yn aml yn adeiladau traddodiadol sydd â gwerth hanesyddol, pensaernïaeth neu fanylion o safon. Nid yw'n golygu nad ydynt wedi cael eu newid mewn rhyw ffordd neu nad oes lle i'w gwella, dim ond y byddai eu colli yn effeithio'n negyddol ar gymeriad neu olwg cyffredinol yr ardal ddynodedig. Ni ddylid edrych yn negyddol ar adeiladau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr gan fod cyfleoedd yn aml i wella adeilad neu strwythur neu adfer nodweddion. Gall peidio â'u cynnwys olygu bod sawl elfen o adeilad traddodiadol wedi'u colli neu fod ei gyfanrwydd wedi'i effeithio'n ddifrifol trwy newidiadau diweddarach. Ni ddylai peidio â'u cynnwys, ynddo'i hun, fod yn rheswm dros roi caniatâd i ddymchwel neu dros ganiatáu datblygiad, dyluniad, deunyddiau neu addasiadau o ansawdd gwael.
- 9.2.4 Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol cenedlaethol o fewn Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan wedi'u rhestru ond mae rhai adeiladau heb eu rhestru y dylid eu hystyried i'w cynnwys ar 'restr leol'. Gall ymchwil ac ymchwiliadau pellach ddatgelu mwy.

## 10. CYMDEITHASAU HANESYDDOL

### 10.1 Pobl

- 10.1.1 Fel tref ganoloesol fach ond pwysig mae nifer o ffigurau hanesyddol o'r cyfnod hwn a'r cyfnod diweddarach wedi cael effaith ar ddatblygiad Llanbedr Pont Steffan, gan gynnwys:
- **Brenin Steffan** (ganwyd tua 1097—bu farw Hydref 25, 1154). Roedd Steffan yn frenin rhwng 1135 a 1154. Ei ragflaenydd oedd Harri I oedd heb adael unrhyw etifedd gwrywaidd ac ni chafodd ei olynydd enwebedig, ei ferch Ymerodres Matilda, ei chefnogi gan lawer o farwniaid pwerus a oedd yn ffafrio Steffan, gŵr cyfoethocaf Lloegr a nai Harri. Bu rhyfel cartref yn ystod y rhan fwyaf o'r degawd a hanner nesaf rhwng Steffan a Matilda, tra colodd coron Lloegr reolaeth ar ei thiriogaeth yn Normandi yn ogystal â thiroedd i'r Alban ac i dywysogion Cymru. Rhoddodd Steffan ei enw i'r castell yn Llanbedr Pont Steffan ac i bont gynnar ar draws afon Teifi, a oedd yn ei thro wedi rhoi ei henw Cymraeg presennol i Lanbedr Pont Steffan. Ni wyddys a oedd Steffan wedi ymweld â Llanbedr Pont Steffan, er y dywedir hefyd iddo wersylla mewn dôl ger yr afon, a elwid wedi hynny yn 'Dôl y Brenin'.
  - Dywedir i gastell Llanbedr Pont Steffan gael ei ddymchwel yn y deuddegfed ganrif gan **Owain Gwynedd**, Tywysog Gogledd Cymru, mewn cyrch yn erbyn y Normaniaid a'r Fflemiaid yn Sir

Aberteifi. Ynghyd â'i frawd Cadwaladr, arweiniodd Owain dri chyrch (1136-37) yn erbyn cadarnle'r Saeson yn ne Ceredigion.

- Bu **Gerallt Gymro** yn pregethu yn Llanbedr Pont Steffan yn 1188 ar ei daith trwy Gymru gydag Archesgob Baldwin i recriwtio dynion ar gyfer y drydedd groesgad.
- Yn 1284 cafodd **Rhys ap Maredudd** yr hawl i gynnal marchnad wythnosol a ffair flynyddol yn Llanbedr Pont Steffan gan Edward I. Roedd Rhys yn uwch aelod o dŷ frenhinol Deheubarth Cymru ac yn or-ŵyr yr Arglwydd Rhys, tywysog De Cymru. Bu Rhys yn ffyddlon i'r goron ond cafodd ei ddadurthio pan na chafodd ei wobrwyo ac yn 1287 fe wrthryfelodd yn erbyn y Saeson trwy gipio rheolaeth ar Gastell Llanymddyfri.
- Yna rhoddodd y **Brenin Edward I** arglwyddiaeth Llanbedr Pont Steffan i Geoffrey Clement yn 1290. Roedd Geoffrey yn amlwg yn arglwydd pwysig yng Nghymru bryd hynny, rhoddwyd tir iddo yn Llyn Syfaddan, Cathedine, Tregaron a chafodd gyfrifoldeb hefyd am Gastell Aberteifi.
- Penodwyd yr **Esgob Thomas Burgess** yn Esgob Tyddewi yn 1803 ac fel diwygiwr aeth ati i ddarparu cyfleoedd i addysgu clergwyr Cymreig. Sefydlodd Goleg Dewi Sant yn 1822 a daeth yn Arglwydd Esgob Caersallog yn 1825. Roedd yn gyfaill mawr i'r diddymwr caethwasiaeth William Wilberforce, un o Gymrodorion y Gymdeithas Frenhinol, un o sefydlwyr Cymdeithas Amaethyddol Odiham, a helpodd i sefydlu'r Coleg Milfeddygol Brenhinol yn Llundain, ac ef oedd llywydd cyntaf y Gymdeithas Frenhinol Llenyddiaeth. Gadawodd ei lyfrgell bersonol o tua 9,000 o gyfrolau i Goleg Dewi Sant, ac mae'n parhau heddiw fel casgliad arbennig Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

10.1.2 Mae gan nifer o benseiri ac artistiaid pwysig gysylltiadau â datblygiad Llanbedr Pont Steffan:

- Dyluniodd **Charles Robert Cockerell** adeiladau gwreiddiol y coleg yn Llanbedr Pont Steffan. Roedd yn brif bensaer ac archeolegydd Seisnig ar ddechrau'r cyfnod Fictoraidd. Dechreuodd ei hyfforddiant pensaernïol yn 16 oed ac aeth ymlaen i weithio fel cynorthwydd i Robert Smirke ar ailadeiladu Theatr Covent Garden cyn cychwyn ar Daith Fawr Ewrop. Wedi dychwelyd, sefydlodd ei bractis pensaernïol ei hun yn 1817. Gwasanaethodd fel Athro Pensaernïaeth yn Academi Frenhinol y Celfyddydau rhwng 1839 a 1859. Yn 1848 ef oedd y cyntaf i dderbyn y Fedal Aur Frenhinol a bu'n Llywydd y RIBA o 1859 i 1861.
- Roedd **Robert Jewell Withers** yn bensaer Fictoraidd a oedd yn enwog am ei waith ar eglwysi; yn ôl pob tebyg roedd wedi adeiladu ac adfer bron i gant o eglwysi yn y Deyrnas Unedig. Fe gynlluniodd ac ailadeiladodd eglwys y plwyf yn Llanbedr Pont Steffan yn 1867-70, gan gymryd

Ile eglwys gynharach o 1836-8 gan William Whittington, pensaer a syrfëwr sirol o Gastell Nedd.

- **Thomas Henry Birchall Scott**, un o sylfaenwyr Urdd yr Arlunwyr a Chrefftwyr Catholig, a gynlluniodd yr Eglwys Gatholig yn Llanbedr Pont Steffan. Cyn hynny roedd wedi cynllunio bron i ddeg ar hugain o eglwysi yn esgobaethau Westminster a Brentwood yn Llundain. Ar ddiwedd y 1930au sefydlodd cymuned Carmeliaid Aberystwyth, yr eglwys yn Llanbedr Pont Steffan, yn bennaf ar gyfer y nifer cynyddol o fewnfudwyr Gwyddelig, Eidalaid a Phwylaidd oedd wedi ymgartrefu yng Ngorllewin Cymru. Gwnaed darpariaeth yn aml ar gyfer gweithiau celf a gomisiynwyd yn arbennig ac mae tri chilgant wedi'u paentio gan **May Malburn** a'r panel reredos cerrig cerfiedig gan **P J Lindsay Clarke** yn Llanbedr Pont Steffan.
- Adeiladwyd yr Hen Ysgol Wladol a'r tŷ athro yn 1850 gan **W L Moffatt**, cyn bartner hirdymor i G G Scott.
- Roedd **Syr William Goscombe John** RA yn gerflunydd Cymreig toreithiog ac yn adnabyddus am ei gofgolofnau cyhoeddus niferus ac fe gynhyrchodd y gofgolofn yn Llanbedr Pont Steffan. Fel cerflunydd, datblygodd John arddull unigryw ei hun tra'n parchu traddodiadau a ffurfiau clasurol o gerflunio.
- Bu'r **teulu Harford**, ac yn arbennig **John Scandrett Harford**, yn arbennig o ddylanwadol yn natblygiad Llanbedr Pont Steffan yn y 19eg ganrif. Roedd yn fanciwr, yn gymwynaswr ac yn ddiddymwr Prydeinig. Roedd eiddo Harford yn cynnwys Ystâd Castell Blaise yn Henbury. Yn 1819, prynodd Harford Ystâd Peterwell yn Llanbedr Pont Steffan hefyd, gan ei brynu ar y cyd â'i frodyr iau. Roedd tir a roddwyd gan Harford wedi cynnig modd adeiladau'r Coleg Dewi Sant gwreiddiol. Mae penddelw o Harford yng nghasgliad y brifysgol ac mae dwy neuadd breswyl, Harford I a Harford II, hefyd wedi'u henwi ar ei ôl. Penodwyd Harford yn Uchel Siryf Sir Aberteifi yn 1825-26 a bu hefyd yn arlunydd gweddol lwyddiannus. Etholwyd ef yn Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol yn 1823 ac ef oedd Llywydd sefydlol yr hyn sydd bellach yn Academi Frenhinol Gorllewin Lloegr (gweler hefyd 6.3.8).

## 10.2 Traddodiadau

10.2.1 Mae'r bêl rygbi gerrig ar gampws y brifysgol yn coffau'r gŵr sy'n gysylltiedig â'r gêm rygbi gyntaf i'w chofnodi yng Nghymru. Ganed y Parch. Ddr. Rowland Williams (1817-1870) yn Helygain, Sir y Fflint, a chafodd ei addysg yng Ngholeg Eton. Yn 1850 fe'i penodwyd yn Is-brifathro ac Athro Diwinyddiaeth yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan lle y cyflwynodd griced, croce a phêl-droed rygbi. Yn 1866 cafodd y gêm rygbi gystadleuol gyntaf a

gofnodwyd ei chynnal yng Nghymru yng Nghaio rhwng Coleg Llanbedr Pont Steffan a Choleg Llanymddyfri. Roedd Llanbedr Pont Steffan yn aelodau sefydlu Undeb Rygbi Cymru yng Ngwesty'r Castell yng Nghastell Nedd yn 1881. Chwaraeodd dau fyfyrwr o Lanbedr Pont Steffan dros Gymru yn 1885 a 1886.



***Ffigur 74 Y bêl rygbi gerrig ar gampws y Brifysgol a osodwyd yn 2016 i ddathlu 150 mlwyddiant y gêm rygbi gyntaf i'w chwarae yng Nghymru***

10.2.2 Agorodd Canolfan Cwiltiau Cymreig yn Neuadd y Dref Llanbedr Pont Steffan ym mis Gorffennaf 2009 i ddathlu'r diwydiant tecstilau yng Nghymru, y Cwilt Cymreig, a hybu dealltwriaeth ehangach o bwysigrwydd y ffurf hon ar gelfyddyd ranbarthol. Mae cwiltiau Cymreig yn hollol unigryw ac yn wahanol i unrhyw beth arall a gynhyrchir mewn mannau eraill. Yn hanesyddol, diwydiant gweithgynhyrchu gwllân Cymru oedd un o'r diwydiannau pwysicaf yng Nghymru. Eitemau cartref fel cwiltiau a blancedi oedd yn cael eu gwneud gyda'r gwllân fel arfer. Yn draddodiadol, mae cwiltiau Cymreig yn cael eu llenwi â gwllân lleol sy'n rhoi eu golwg gweddol i'r cwiltiau a dyna sy'n eu gwneud yn unigryw. Gan fod Cymru wedi bod yn enwog am ei gwllân ers amser maith, credir yn gyffredinol mai gwllân Cymreig yw'r gwllân gorau y gallwch ei gael ac felly mae cwiltiau Cymreig hefyd yn gynhesach na chwiltiau cyffredin fel



arfer. Mae cwiltiau Cymreig hefyd yn dueddol o fod â chynlluniau unigryw megis clytwaith, paisli, dail, calonnau a throellau.

10.2.3 Fel tref farchnad draddodiadol mae gan Lanbedr Pont Steffan ei chyfran o ddigwyddiadau hanesyddol megis Gŵyl Fwyd Llanbedr Pont Steffan, Carnifal Llanbedr Pont Steffan, Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen, Sioe Gymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan, Ffair Nadolig, gwasanaeth eglwys Plygain Cymraeg traddodiadol, Sioe Dofednod flynyddol (sef yr unig Sioe Dofednod sy'n dal i gael ei chynnal yng Nghymru), Gŵyl Cwrw a Seidr Cymru, ac wrth gwrs y marchnadoedd a gynhelir dwywaith y mis. Cafodd Ffair Geffylau Dalis ei hadfywio am gyfnod yng nghanol/ar ddiwedd yr 20fed ganrif ond nid yw wedi cael ei gynnal ers hynny.

10.2.4 Nid oedd boneddigion Llanbedr Pont Steffan bob amser yn gymwynaswyr hael fel teulu Harford. Mae adfeilion plasty Peterwell i'w gweld ychydig i'r dwyrain o'r dref. Adeiladwyd y tŷ hwn ar gyfer Syr Herbert Lloyd ar ôl 1755 ac fe'i gadawyd wedi i'w berchennog treisgar ladd ei hun yn 1769. Yn ei swyddi amlwg fel Ynad Heddwch, Aelod Seneddol a barwnig, cododd arswyd ar y sir. Roedd ystâd arall, Maesyfelin, wedi bod yn gartref i genedlaethau cynharach o'r teulu Lloyd. Adeiladwyd Peterwell o'i cherrig, a dim ond ychydig o waliau gardd sydd ar ôl o adeilad Maesyfelin y tu ôl i Heol yr Orsaf. Roedd y teulu Lloyd cynharach yr un mor ddrwg-enwog a chawsant eu melltithio gan y Ficer Pritchard o Lanymddyfri ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg. Cofir am greulondeb y teulu mewn chwedlau gwerin sy'n dal i gael eu hailadrodd heddiw fel y dangosir yn y darnau canlynol o 'Folk-Lore of West and Mid-Wales' gan Davies:

*"The most popular tradition associated with Lampeter is that known as the "Curse of Maesyfelin." Maesyfelin was a stately mansion on the banks of the river Dulas, on the east side of the town of Lampeter. It was once a place of consequence, and an ancient family of Lloyds lived there. About the beginning of the 17th Century the famous Vicar Pritchard of Llandoverly, author of "Canwyll y Cymry" had a son named Samuel. Tradition has it that this young Samuel was an intimate friend of Sir Francis Lloyd, Knight of Maesyfelin, who was a wicked man. At last, so the story goes, the two quarrelled over some love affair, and young Samuel was stifled to death between two feather beds. The body, tied in a sack and placed on horse-back, was conveyed over the mountain in the depth of night and thrown into the river Towy in Carmarthenshire. When the body of his lamented son was discovered in the river, the broken-hearted father pronounced a curse on Maesyfelin in the following words:*

*"Melldith Duw ar Maesyfelin—*

*Ar bob carreg, ar bob gwreiddyn— Am daflu blodau tref Llan'ddyfri*

*Ar ei ben i Dywi i foddi."*

*(The curse of God on Maesyfelin!*

*On every stone, and root therein,*

*For throwing the flower of Llandovery town To Towy's water, there to drown.)*

*People believe to this day that the judgment of God fell on the family and mansion of Maesyfelin. The palace delapsed and no longer exists. Materials from its ruins were carried away to repair Ffynonbedr, another mansion in the neighbourhood; but that place is also in ruin now, so that it is believed that the curse of Maesyfelin followed the material to Ffynonbedr."*

-----

*"A rival wizard who lived in the neighbourhood of Lampeter, on one occasion challenged Sir Dafydd (Sir Dafydd Llwyd) to a contest in the black art, in order to prove to the world which of the two wizards was the cleverest in controlling the demons. On the morning of the appointed day for the contest between the two experts in the black art, Sir Dafydd sent his boy to an elevated spot to have a look round if he could see a bull coming from the direction of Lampeter. The boy went, but ran back immediately to inform his master that a most savage bull was approaching. Off went Sir Dafydd to Craig Ysguboriau, and stood on the spot with his open magic book in his hand. The bull, or rather a demon in the form of a bull, fiercely attempted to rush at him, but Sir Dafydd compelled him to return whence he came. The animal returned to Lampeter and rushed at once at the Lampeter wizard, and killed him. So Sir Dafydd defeated and got rid of his rival."*


## 11. HANESION CUDD

### 11.1 Potensial Archeolegol

11.1.1 Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, ar ran Cadw, wedi cynhyrchu cyfres o adroddiadau ar 'Archeoleg Trefi Canoloesol De-orllewin Cymru'. Cyhoeddwyd Llanbedr Pont Steffan yn 2021 (Murphy. COFNOD DIGWYDDIAD RHIF 125663). Mae'r adroddiad yn nodi canlyniadau'r unig ymchwiliad archeolegol y gwyddys iddo gael ei gynnal yn y dref (ar hyn o bryd) ac yn asesu'r potensial archeolegol. Argymhellir y dylid defnyddio'r adroddiad hwn i lywio penderfyniadau a blaengynllunio ar gyfer datblygu Llanbedr Pont Steffan yn y dyfodol.

11.1.2 Nododd yr adroddiad fod gan Lanbedr Pont Steffan botensial o ran rhai o'r eitemau allweddol ar yr agenda ymchwil ar gyfer y cyfnod canoloesol, gan gynnwys plannu trefi, adeiladu cestyll

ac adeiladu eglwysi. Mae ganddi hefyd y potensial o ran y thema ymchwil ôl-ganoloesol ar aneddiadau (trefi). Mae gan yr ardaloedd canlynol botensial archeolegol uchel: dyddodion archeolegol canoloesol ar hyd blaen stryd y Stryd Fawr: Capel Sant Thomas (er nad yw union leoliad y safle hwn yn hysbys); safle'r eglwys blwyf wreiddiol, i'r de o'r eglwys bresennol.



*Ffigur 75 Pen deheuol y fynwent bresennol a safle'r eglwys ganoloesol wreiddiol*

11.1.3 Mae rhywfaint o botensial archeolegol hefyd ar gyfer dod o hyd i dystiolaeth o adeiladau hŷn o dan wynebau allanol sydd wedi'u hadnewyddu neu eu hadfer. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer ardal cymeriad canol y dref ac ar gyfer datblygiadau a allai effeithio ar strwythur adeilad. Dylai gweithwyr proffesiynol cymwys gynnal ymchwiliad digonol o adeiladau er mwyn cynhyrchu Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth sy'n gymesur ac yn berthnasol. Mae'n bosibl y bydd angen rhywfaint o ymchwiliad ymwthiol cychwynnol cyn rhoi caniatâd i weld a yw deunydd cynharach yn debygol o fod yn bresennol. Nid oes angen Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth fel arfer ar gyfer caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o fewn ardal gadwraeth, ond gall yr awdurdod lleol ofyn am wybodaeth ychwanegol i gefnogi cais lle bernir bod angen hynny.


## **12. BIOAMRYWIAETH**

### **12.1 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)**

12.1.1 Mae afon Teifi wedi cael ei dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig Afonol (ACA). Mae afon Teifi yn ddalgylch mawr o werth cadwraeth uchel. Y prif resymau dros ddewis y safle hwn yw'r



Ffigur 77 Gorchmynion Cadw Coed



nodweddion canlynol a phresenoldeb y rhywogaethau canlynol:

- Cyrsiau dŵr o lefelau gwastadedd i fynyddig gyda'r llystyfiant *Ranunculus fluitantis* a *Callitriche-Batrachion*
- Rhywogaethau: Lamprai'r nant *Lampetra planeri*
- Rhywogaethau: Lamprai'r afon *Lampetra fluviatilis*
- Rhywogaethau: Eog yr Iwerydd *Salmo salar*
- Rhywogaethau: Crothell *Cottus gobio*
- Rhywogaethau: Dyfrgi *Lutra lutra*
- Rhywogaethau: Llyriad-y-dŵr arnofiol *Luronium natans*

12.1.2 Mae rhan o glustogfa 100m ACA Teifi yn cyfateb â rhannau o Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan ym mhen deheuol a dwyreiniol pellach yr ardal.

## 12.2 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)

12.2.1 Mae afon Teifi hefyd wedi'i dynodi'n SoDdGA, gyda'r ffin yn cyfateb i ffin yr ACA. Fe'i nodir fel un o bwysigrwydd daearegol a biolegol.

## 12.3 Coed

12.3.1 Mae MapDataCymru (data 2018) yn dangos data Cyfoeth Naturiol Cymru ar Orchudd Coed Trefol. Mae'n dangos bod lefel ryfeddol o uchel o orchudd coed yn y dref, sy'n cyfrannu'n fawr at ei chymeriad. Mae ardaloedd allweddol yn cynnwys: yr ardal orllewinol ac yn arbennig y fynwent; campws y brifysgol; y mannau agored gwyrdd o amgylch y Bryn a Ffordd y Gogledd yn ogystal â nifer sylweddol o goed mewn gerddi preifat.

12.3.2 Mae gwerth coed yn yr ardal cadwraeth a'i lleoliad, a'u cyfraniad i'w chymeriad a'i golwg, yn cael ei gadarnhau gan y nifer o Orchmynion Gwarchod Coed (gweler Ffigur 75). Mae hon yn haen ychwanegol o warchodaeth ochr yn ochr â'r hyn a roddir gan ddeddfwriaeth ardaloedd cadwraeth.

## 13. GWERTH CYMUNEDOL

### 13.1 Cymunedol

13.1.1 Mae cymuned leol gryf yn Lanbedr Pont Steffan, er nad oedd hynny'n amlwg o'r ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Credir mai'r rheswm am hyn oedd diffyg gwybodaeth am y digwyddiad yn hytrach na diffyg diddordeb. Y farn leol yw bod yr ysbryd cymunedol gweithgar wedi lleihau ers i boblogrwydd yr ardal dyfu gyda phobl newydd yn symud i mewn.

Fodd bynnag, mae pobl newydd wedi dod â syniadau a brwdfrydedd newydd. Efallai mai'r ysbryd o le a phwyslais sydd wedi newid yn hytrach na lleihad yn y gwerth cymunedol. Mae gwefan y cyngor tref yn rhestru dros 45 o glybiau a sefydliadau lleol, ac mae llawer o'r siopau lleol a chyfleusterau eraill yn rhedeg eu clybiau anffurfiol eu hunain.



**Ffigur 78 Enghraifft o'r bwrdd Taith Dreftadaeth**

13.1.2 Mae'r iaith Gymraeg yn gyffredin yn y gymuned leol, er y gred mai'r genhedlaeth hŷn a chanol oed sy'n ei siarad yn bennaf bellach a bod Saesneg yn fwy cyffredin ymhlith pobl iau. Clonc yw papur bro Cymraeg ardal Llanbedr Pont Steffan. Fe'i cyhoeddir yn fisol mewn fformat printiedig ac mae ar werth mewn llawer o'r siopau lleol. Mae hefyd yn cynnig gwasanaeth newyddion ar-lein trwy Clonc360.

### 13.2 Crefftau Traddodiadol

13.2.1 Mae gan Lanbedr Pont Steffan gysylltiad hanesyddol cryf â chrefftau a sgiliau traddodiadol ac mae'r cynigion yn y siopau a chlybiau lleol yn adlewyrchu hyn. Mae gan y farchnad ffermwyr fisol elfen grefftau gryf hefyd, fel y mae digwyddiadau eraill y dref megis y sioe amaethyddol a'r farchnad Nadolig.

13.2.2 Mae Canolfan Cwiltiau Cymreig yn Neuadd y Dref yn esiampl arbennig o hyn ac yn atyniad poblogaidd i dwristiaid.

13.2.3 Cynhelir llawer o ddsbarthiadau a gweithdai crefftau amrywiol trwy gydol y flwyddyn. Mae canolfannau cyfagos megis Denmark Farm a Choedwig Gymunedol Long Wood yn ategu'r ddarpariaeth o gyrsiau crefftau a gynigir.

### 13.3 Treftadaeth

13.3.1 Mae Taith Dreftadaeth y Dref yn egluro hanes Llanbedr Pont Steffan trwy gyfres o fyrddau gwybodaeth dwyieithog wrth eich tywys o amgylch y dref. Mae'n cynnwys amryw o leoliadau ac adeiladau o ddiddordeb, gan gynnwys Clwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan, un o sefydlwyr Undeb Rygbi Cymru, y gofgolofn I a ddyluniwyd gan W Goscombe John, y brifysgol ac adeilad Dewi Sant. Gallwch hefyd ddysgu am gysylltiad Llanbedr Pont Steffan â'r ymgais i lofruddio Dylan Thomas yn 1945. Mae'r byrddau wedi bod yno am gryn amser erbyn hyn ond mae gan y Cyngor Tref gynlluniau i adnewyddu'r rhain ac ymestyn y llwybr.



***Ffigur 79 Arddangosfa o ffotograffau hanesyddol a chardiau post o Lanbedr Pont Steffan yn Eglwys Sant Pedr yn ystod ei gŵyl flodau***

13.3.2 Mae gan Lanbedr Pont Steffan ei hamgueddfa fach ei hun wedi'i lleoli yn yr hen Borthordy wrth fynedfa'r brifysgol ar Stryd y Coleg ac yn cael ei rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr. Mae Cymdeithas Hanes leol weithgar hefyd (Hanes Llanbedr Pont Steffan) a chyfrif Facebook cyfan wedi ei neilltuo i hen luniau o Lanbedr Pont Steffan. Mae'r brifysgol wedi sefydlu adrannau hanes ac archaeoleg sy'n cynnig ystod o gyrsiau gradd a chyfleoedd ôl-raddedig.



## 14. MATERION – DADANSODDIAD CGCB

<b>CRYFDERAU</b>	<b>GWENDIDAU</b>
<p>Arwyddocâd hanesyddol pwysig</p> <p>Potensial ymchwil mawr</p> <p>Tref farchnad boblogaidd</p> <p>Poblogaeth a diwylliant Cymraeg cryf</p> <p>Mannau agored gwyrdd da</p> <p>Ychydig o adeiladau rhestredig 'problemus' neu wag</p> <p>Porth i Orllewin Cymru</p> <p>Gorchudd coed da</p> <p>Ar brif lwybrau trafndiaeth</p> <p>Y brifysgol ac addysg</p> <p>Palmentydd llydan</p> <p>Canol tref fach sy'n hawdd ei gyrraedd</p> <p>Amrywiaeth dda o siopau a chaffis annibynnol</p>	<p>Colli nodweddion gwreiddiol adeiladau nad ydynt yn rhestredig trwy'r ardal gadwraeth</p> <p>Rhai blaenau siopau o ansawdd gwael</p> <p>Newid nodweddion terfyn traddodiadol a rhoi deunyddiau anhraddodiadol yn eu lle</p> <p>Diffyg cynnal a chadw arferol ar rai adeiladau</p> <p>Perchnogaeth adeiladau gan landlordiaid</p> <p>Tâl parcio ceir i bobl leol</p> <p>Rhai siopau gwag</p> <p>Diffyg swyddi lleol</p> <p>Colli diwylliant bywiog gyda'r hwyr</p> <p>Diffyg cynnig twristiaeth diffiniedig</p> <p>Cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus gwael</p>
<b>CYFLEOEDD</b>	<b>BYGYTHIADAU</b>
<p>Potensial archeolegol ac ymchwil</p> <p>Cynnwys y gymuned</p> <p>Gwelliant o ran cysondeb ac ansawdd yr ardal gyhoeddus, arwyddion, dehongliad a dodrefn stryd</p> <p>Gwella palmentydd concrit</p> <p>Diogelu neu ddisodli nodweddion pensaernïol gwreiddiol adeiladau nad ydynt yn rhestredig</p> <p>Cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau tref farchnad a chrefftau â thema hanesyddol</p> <p>Twristiaeth</p> <p>Cynnwys myfyrwyr yn niwylliant y dref</p> <p>Pensaernïaeth fodern o ansawdd uchel</p> <p>Gwell defnydd o fannau agored / gwyrdd / awyr agored</p>	<p>Colli'r gwahaniaeth rhwng tref a chefn gwlad – datblygiadau newydd, yn enwedig masnachol/diwydiannol ychydig y tu allan i ganol y dref</p> <p>Colli manylion a nodweddion pensaernïol gwreiddiol</p> <p>Colli gorchudd coed</p> <p>Colli manau agored</p> <p>Erydiad y cymeriad hanesyddol trwy ymyriadau modern, yn enwedig yn achos siopau</p> <p>Colli siopwyr lleol ac ymwelwyr i drefi mwy gerllaw</p>

WEDI'I YRBU SAN  
**FFYNIANT  
— BRO —**


POWERED BY  
**LEVELLING  
— UP —**



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council



UK Government Wales  
Llywodraeth y DU Cymru

 Tyfu  
Canolbarth Cymru  
Growing  
Mid Wales



# LLANBEDR PONT STEFFAN / LAMPETER

## Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

Mai 2024

Paratowyd ar gyfer

**Cyngor Sir Ceredigion**

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

## 1. CYFLWYNIAD

### 1.1 Cynllun Rheoli

1.1.1 Mae'r cynllun rheoli hwn yn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn yr arfarniadau ac yn nodi ymatebion priodol sy'n gymesur ag arwyddocâd yr ardal. Mae'r cynllun yn nodi amcanion rheoli realistig, gan ystyried adnoddau a chyfleoedd ariannu a pholisïau ar gyfer gwella.

## 2. CYFARWYDDIADAU ERTHYGL 4

### 2.1 Cyflwyniad i Gyfarwyddiadau Erthygl 4

- 2.1.1 Mynegir diddordeb arbennig ardaloedd cadwraeth yng nghymeriad a golwg yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.
- 2.1.2 Mae rheolaethau cynllunio ychwanegol y gellir eu cymhwyso i ardaloedd cadwraeth er mwyn diogelu'r elfennau hanesyddol a phensaernïol sy'n gwneud yr ardal yn arbennig. Gelwir y rheolaethau arbennig hyn yn Gyfarwyddiadau Erthygl 4. Penderfynir arnynt gan bob awdurdod cynllunio lleol yn dibynnu ar ba elfen arbennig o'r ardal gadwraeth y maent am ei diogelu. Maent yn fwyaf tebygol o effeithio ar berchnogion sydd am wneud newidiadau i du allan eu hadeilad. Gall y rhain gynnwys cladin, newid drysau neu ffenestri, a gosod dysglau lloeren a phaneli solar.
- 2.1.3 Ni fwriedir i'r rheolaethau hyn atal newid; yn hytrach, maent yn annog datblygiadau sy'n gydnaws â'r ardal neu sy'n gwella ei chymeriad arbennig. Gellid defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i helpu i reoli newidiadau ar raddfa fach na fyddai'n cael fawr o effaith yn unigol, ond gyda'i gilydd gallent effeithio ar olwg neu gymeriad ardal gadwraeth.
- 2.1.4 Mae Erthyglau 4(1) a 4(2) o Orchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 yn galluogi awdurdodau lleol i wneud cyfarwyddiadau sy'n tynnu'n ôl rhai hawliau datblygu a ganiateir, gan gynnwys rhai mathau o adeiladau neu ardaloedd penodol.
- 2.1.5 Gellir defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4(1) i dynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o dir ac adeiladau ond rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.
- 2.1.6 Mae Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yn gymwys i adeiladau ac adeileddau domestig, ond dim ond i'r rhannau hynny sy'n wynebu priffyrdd, dyfrffyrdd neu fannau agored. Gall awdurdodau lleol eu cadarnhau unwaith y bydd y cyfarwyddyd wedi'i hysbysebu'n lleol ac mae rhybudd wedi'i

gyflwyno i drigolion. Yn ogystal, gallai cyfarwyddiadau o'r fath fod yn gymwys hefyd i ddymchwel y cyfan neu ran o unrhyw giât, ffens, wal neu ddull arall o amgáu a allai fod yn gysylltiedig ag eiddo domestig neu beidio.

- 2.1.7 Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yw'r cyfarwyddyd a ddefnyddir amlaf ar gyfer rheoli o fewn ardaloedd cadwraeth. Fe'u cymhwysir yn aml mewn senario 'ffon ac abwyd', lle mae rheolaethau yn cael eu cymhwyso trwy'r system gynllunio a'r defnydd o Gyfarwyddyd ond mae cymhellion yn cael eu cymhwyso trwy system grantiau sy'n berthnasol i newid neu gynnal a chadw nodweddion traddodiadol.
- 2.1.8 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir ac ati) (Diwygio) (Cymru) 2022 yn cynnwys newid i Gyfarwyddiadau Erthygl 4, ond ar y dyddiad ysgrifennu nid yw hyn wedi dod i rym eto. Mae'r newid hwn yn dileu Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) ac yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud Cyfarwyddiadau heb droi at Weinidogion Llywodraeth Cymru. Felly, bydd dau fath o Gyfarwyddyd a'r ddau yn cael eu cyflwyno o dan Erthygl 4(1) o'r Gorchymyn:
- **Cyfarwyddyd Uniongyrchol** pan fydd hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl ar unwaith ac yna'n cael eu cadarnhau gan yr ACLI yn dilyn ymgynghoriad;
  - **Cyfarwyddyd Anuniongyrchol** lle mae hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl yn dilyn ymgynghoriad a chadarnhad gan yr ACLI.



*Ffigurau 1 a 2 Gellir defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i ddiogelu ac annog adfer nodweddion pensaernïol megis waliau terfyn, portshys, simneiau, ffenestri a drysau*

## 2.2 Llanbedr Pont Steffan

- 2.2.1 Nid oes gan Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan Gyfarwyddyd Erthygl 4 (2) ar hyn o bryd.
- 2.2.2 Mae'r mwyafrif o'r ffenestri a'r drysau gwreiddiol wedi goroesi yn ardal cymeriad canol y dref. Mae canol y dref hefyd wedi cadw'r rhan fwyaf o'r portshys hanesyddol a nodweddion

pensaernïol gwreiddiol eraill. Mae'r mwyafrif o'r adeiladau hyn yn rhai masnachol neu'n fflatiau uwchben siopau ac felly nid oes ganddynt y caniatâd datblygiadau a ganiateir a roddir i dai annedd sengl. Mae strydoedd unigol o fewn yr ardal gadwraeth lle nad yw unrhyw ffenestri na drysau gwreiddiol wedi goroesi, ond lle maent i'w gweld maent yn gwella cymeriad yr adeilad a'r ardal gyfan yn fawr. Mae'r arfarniad wedi nodi bod y golled hirdymor hon o nodweddion pensaernïol traddodiadol wedi cael yr effaith gynyddol o erydu cymeriad pensaernïol yr ardal.

- 2.2.3 Mae simneiau wedi cael eu nodi fel nodwedd bwysig yn Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan ac mae'r rhain i'w gweld ar draws yr ardal gadwraeth gyfan.
- 2.2.4 Mae waliau cerrig a rheiliau hefyd wedi cael eu nodi fel mannau caeedig a therfynau pwysig ac mae'r rhain hefyd i'w gweld ar draws yr ardal gadwraeth.
- 2.2.5 Mae llinellau to, ffasadau a deunyddiau adeiladu, a chynlluniau peintio lliwgar hefyd wedi cael eu nodi fel rhai sy'n helpu i ddiffinio ardaloedd cymeriad gwahanol.



***Ffigur 3 Mae simneiau yn gydrannau pwysig o adeiladau unigol, llinellau toeau a chymeriad yr ardal gadwraeth***

### **2.3 Argymhelliad – Yn dibynnu ar ba ddeddfwriaeth sydd mewn grym adeg mabwysiadu**

2.3.1 Dylid cymhwyso Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1 neu 2) i Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan. Ni ellir cymhwyso hyn yn ôl-weithredol ac mae ond yn gymwys i dai annedd a drychiadau sy'n wynebu priffordd, man agored neu ddyfrffordd. Dylid cymhwyso Erthygl 4(2) i'r hawliau datblygu a ganiateir canlynol:

- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth A: Ehangu, gwella neu newid arall i dŷ annedd (i gynnwys newidiadau i ffenestri, newidiadau i ddrysau, rendro, neu ail-rendro eiddo)

- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth B: Ychwanegu to neu newid to
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth C: Newidiadau eraill i doeon
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth D: Codi portsh
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth G: Newid, codi, rendro neu symud simneiau
- Atodlen 2 Rhan 2, Dosbarth A: Codi, newid, rendro, neu symud waliau, ffensys, neu reiliau terfyn
- Atodlen 2 Rhan 2, Dosbarth C: Paentiad allanol adeiladau
- Atodlen 2 Rhan 11, Dosbarth C: Dymchwel waliau, ffensys neu reiliau terfyn

### 3. ADOLYGIAD FFIN

#### 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Mae'n bwysig adolygu ffiniau ardaloedd cadwraeth o bryd i'w gilydd ac ystyried lle gallai fod angen gwneud addasiadau. Lluniwyd llawer o ffiniau ardaloedd cadwraeth cynnar yn gaeth iawn ac nid oeddent bob amser yn cydnabod cyfraniad cyfnodau datblygu diweddarach i gymeriad lle na gwerth patrymau lleiniau hanesyddol, er enghraifft. Mewn rhai achosion mae ffiniau tir wedi newid neu mae datblygiadau modern da wedi digwydd.

#### 3.2 Llanbedr Pont Steffan

3.2.1 Estynnwyd ffin wreiddiol yr ardal gadwraeth yn Llanbedr Pont Steffan yn 1987 i gynnwys yr ardaloedd o ddatblygu diweddarach sydd o ddiddordeb hanesyddol a phensaernïol ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad cyffredinol yr ardal.

3.2.2 Mae'r arfarniad wedi nodi bod ardal fach i'r dwyrain o Stryd y Felin sy'n cynnwys y tŷ sy'n gysylltiedig â'r felin ŷd hanesyddol a rhai bythynnod diddorol o'r 19eg ganrif. Ardal fach yw hon ond byddai'n cwblhau diddordeb hanesyddol yr ardal pe bai'n cael ei chynnwys o fewn ffin yr ardal gadwraeth (gweler 8.6.4).

#### 3.3. Argymhelliad


3.3.1 Argymhellir gwneud estyniad bach iawn i Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan i gynnwys Y Felin (Adeilad Rhestredig Gradd II) a 9 a 10 Stryd y Felin, fel y dangosir ar y map isod.

## 4. YR ANGEN AM GANLLAWIAU DYLUNIO MANWL NEU WYBODAETH GYHOEDDUS

#### 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae awdurdodau cynllunio lleol yn ymwneud â rheoli ardaloedd cadwraeth o ddydd i ddydd trwy eu rôl yn y broses gynllunio. Y ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol yw **cadw neu**

Ffigur 4 Estyniad arfaethedig i'r ardal gadwraeth (glas)



**Cyngor Sir Ceredigion**  
**Ceredigion County Council**  
 Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
 Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
 Ffôn./Tel. 01545 570881

**Llanbedr Pont Steffan / Lampeter**

**Allwedd / Key**

- ▭ Ardal Gadwraeth Gyfredol
- ▭ Estyniad Arfaethedig

Graddfa / Scale: 1:4,185  
 Agrafrwyd ar / Printed on: 2024-02-22

© Crown copyright and database right 2024. Ordnance Survey 100024419  
 © Ceredigion Council 2024. All rights reserved.  
 G N

**wella** cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. Nid yw hyn yn golygu na ellir caniatáu newid ond bod angen asesu ceisiadau cynllunio gyda'r ddyletswydd hon mewn golwg.

- 4.1.2 Gall gwybodaeth fanwl am agweddau arbennig ar yr amgylchedd adeiledig hanesyddol helpu perchnogion, meddianwyr, asiantau cynllunio a'r awdurdod cynllunio lleol i benderfynu ar y ffyrdd gorau o reoli newid cadarnhaol a mabwysiadu dull cyson.
- 4.1.3 Gall gwybodaeth neu ddehongliad cyhoeddus helpu i sicrhau bod pawb yn deall pam bod ardal yn arbennig. Mae pobl sy'n deall pam bod rhywbeth yn arbennig yn fwy tebygol o ofalu amdano a theimlo eu bod am ofalu amdano. Gall hefyd helpu gyda'r cynnig twristiaeth a hybu buddsoddiad mewn ardal leol.

## 4.2 Llanbedr Pont Steffan

- 4.2.1 Mae ychydig o adnoddau ar gael ar hyn o bryd ar gyfer rheoli Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan.
- 4.2.2 Mae dau Gynllun Lle ar wahân ar gyfer Llanbedr Pont Steffan. Cynhyrchwyd un gan y Cyngor Tref tra bod y llall yn ddrafft a baratowyd gan y Swyddfa Wledig (heb ei fabwysiadu ar hyn o bryd). Mae Cynllun Lle Llanbedr Pont Steffan y Cyngor yn ceisio darparu cyfeiriad priodol ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol gan adfywio a chynnal atyniad y dref yr un pryd. Mae ei gylch gwaith yn ehangach na'r ardal gadwraeth ac mae'n cwmpasu ystod lawer ehangach o amcanion. Fodd bynnag, mae'n cadarnhau bod hanes y dref yn bwysig i drigolion a busnesau lleol.
- 4.2.3 Mae'r adroddiad ar archeoleg Llanbedr Pont Steffan yn yr Oesoedd Canol (Murphy 2021) gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed yn ddogfen bwysig a dilys sy'n ymwneud yn bennaf â'r archeoleg gladdedig ond gyda pheth perthnasedd i adeiladau sy'n sefyll.
- 4.2.4 Nid oes unrhyw arfarniad neu gynllun rheoli cyfredol neu fabwysiedig ar gyfer yr ardal gadwraeth.
- 4.2.5 Fel y nodwyd yn yr arfarniad, mae rhai blaenau siopau traddodiadol i'w gweld o hyd ond mae eraill sy'n amhriodol a heb gydymffurfio â chymesuredd, deunyddiau ac arddull traddodiadol. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar yr adeiladau, y strydlyn a chymeriad a golwg ehangach yr ardal gadwraeth.
- 4.2.6 Mae'r mwyafrif o'r newidiadau yn digwydd i adeiladau hanesyddol ac yn arbennig tai annedd ac eiddo ar rent oherwydd gofynion effeithlonrwydd ynni. Mae angen deall adeiladau traddodiadol yn iawn o ran eu hadeiladwaith, eu harwyddocâd a'u defnydd cyn y gellir



gwneud newidiadau addas. Mae llawer o ddewisiadau eraill yn lle'r adweithiau difeddwl arferol i, er enghraifft, disodli ffenestri hanesyddol neu osod inswleiddiad wal allanol. Byddai'r ddau beth hyn yn amharu ar nodweddion arbennig yr adeilad ac o bosibl yn achosi problemau tymor hwy diangen yn ogystal â buddsoddiad ariannol pellach.



**Ffigurau 5 a 6 Mae blaenau siopau hanesyddol da yn ased i'r dref ond gallai eraill gael eu gwella tipyn**

4.2.7 Mae sawl plac llwybr tref i'w weld yn y dref ac amrywiaeth o dudalennau gwe a safleoedd ar y cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â'i datblygiad hanesyddol. Fodd bynnag, nid oes cynnig cydlynol (naill ai ar gyfer pobl leol neu ymwelwyr) sy'n egluro datblygiad hanesyddol y dref, pam ei bod yn bwysig, a beth sydd i'w weld a'i wneud yma. Mae rhai o'r placiau presennol mewn cyflwr gwael ac yn anodd eu darllen. Nid oes unrhyw fath arall o daith gerdded hunandwys naill ai'n electronig neu ar ffurf copi caled. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i bobl gael y profiad gorau o'r dref. Mae digwyddiadau yn cael eu cynnal yn y dref yn aml ac yn boblogaidd ond, unwaith eto, mae diffyg cydlynol o ran eu trefnu, eu marchnata a'u hyrwyddo, yn enwedig i farchnad ehangach na'r gymuned leol.

### 4.3 Argymhelliad

- 4.3.1 Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.
- 4.3.2 Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan ar gyfer trigolion a busnesau sy'n egluro beth sy'n bwysig am yr ardal, rheolaethau a beth mae'n ei olygu i fyw a gweithio yn yr ardal.
- 4.3.3 Sicrhau bod dehongliad am hanes y dref yn gyson, yn gyfredol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Sicrhau bod pobl yn ymwybodol o hanes y dref farchnad a digwyddiadau a ffeiriau hanesyddol, y mae llawer ohonynt yn unigryw neu a fu'n unigryw yn y gorffennol. Gallai prosiect cymunedol bach archwilio'r hyn sydd eisoes ar gael (ffisegol, gwefannau, cyfryngau

cymdeithasol, taflenni, digwyddiadau ac ati) a chreu dehongliad a chynllun digwyddiadau ar gyfer y dref a fyddai'n helpu i roi gwybodaeth i bobl leol ac ymwelwyr, creu dull cyson a chydgysylltiedig, cynyddu mynediad deallusol, annog ymwelwyr i wario a hybu twristiaeth. Efallai y bydd cymorth grant ar gyfer prosiect o'r fath.

4.3.4 Diweddarau'r canllawiau dylunio blaenau siopau presennol ar gyfer Aberystwyth er mwyn gallu eu defnyddio ym mhob ardal gadwraeth yng Ngheredigion. Gweithio gyda sefydliadau busnes lleol i ddsbarthu a darparu hyfforddiant.

4.3.5 Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De Cymru a'r Canolbarth, Fforwm Treftadaeth Adeiledig Cadw, IHBC, Canolfan Tywi a sefydliadau eraill, datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth newydd sy'n berthnasol i'r ardal. Gallai enghreifftiau gynnwys canllawiau ar gynnal a chadw ac atgyweirio, ffenestri a drysau hanesyddol, microgynhyrchu a chynaliadwyedd, ac effeithlonrwydd ynni ar gyfer pob ardal gadwraeth, adeiladau hanesyddol a rhestredig yng Ngheredigion. Dylai'r canllawiau cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni roi sylw i:

- **Cynnal a Chadw:** Mae diffygion adeiladu yn effeithio ar gynaliadwyedd adeiladau hanesyddol yn y tymor hir. Mae addysgu ceidwaid adeiladau a chontractwyr yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, diogelu treftadaeth bensaernïol y rhanbarth, a chyflawni nodau cynaliadwyedd. Mae defnyddio deunyddiau a sgiliau traddodiadol priodol mewn modd amserol yn hanfodol bwysig i barhad adeiladau hanesyddol yn y tymor hir.



**Ffigur 7 Gall diffyg cynnal a chadw a defnydd priodol arwain at gollu adeiladau hanesyddol**

- **Adeiladwaith traddodiadol a sut mae hen adeiladau'n gweithio:** Yn gyffredinol diffinnir adeiladau traddodiadol fel y rhai a gafodd eu hadeiladu cyn 1919, gyda waliau solet (yn hytrach na waliau ceudod), gan ddefnyddio deunyddiau naturiol gan gynnwys cerrig, pridd, brics, pren a chalch. Mae'r term 'traddodiadol' yn cwmpasu amrywiaeth enfawr o fathau, arddulliau ac oedrannau adeiladu, o fythynnod cerrig i gestyll ac o dai tref i gapeli. Mae'r deunyddiau a'r technegau a ddefnyddir mewn adeiladu traddodiadol wedi creu'r adeiladau unigol, cyferbyniol ac idiosyncratig sy'n helpu i ddiffinio cymeriad unigryw ein trefi, pentrefi a thirweddau gwledig, a hunaniaeth y cymunedau sy'n byw ynddynt. Mae adeiladau hŷn yn defnyddio technegau adeiladu gwahanol i adeiladau newydd modern. Mae deall hyn a dysgu sut i ddefnyddio'r technegau priodol yn hanfodol i hirhoedledd ein hadeiladau hanesyddol.
- **Arbed ynni ac ôl-ffitio mewn adeiladau hanesyddol:** Dylai'r canllawiau gynnwys: effeithlonrwydd ynni a pham ei fod yn bwysig – iechyd, newid yn yr hinsawdd ac allyriadau carbon; Beth yw ôl-osod a pham fod angen agwedd arbennig ar adeiladau hŷn?; Opsiynau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau traddodiadol – e.e. defnydd, sicrhau dull tŷ cyfan, dewisiadau eraill yn lle newid ffenestri a drysau traddodiadol, pwysigrwydd gwresogi ac awyru, anadlwyedd ac inswleiddio, cynnal a chadw ac atgyweirio etc.

## 5. CYFLEOEDD AR GYFER RHESTRU LLEOL

### 5.1 Cyflwyniad

- 5.1.1 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Gall y rhestr gynnwys pob math o ased hanesyddol — adeiladau, parciau, gerddi, henebion a safleoedd archeolegol — ar yr amod nad ydynt eisoes wedi'u dynodi'n ffurfiol.
- 5.1.2 Dylai'r asedau a nodir i'w cynnwys ar y rhestr wneud cyfraniad pwysig at hynodrwydd lleol a bod â'r potensial i gyfrannu at wybodaeth y cyhoedd.
- 5.1.3 Dylai eu dewis fod yn seiliedig ar feini prawf clir, tystiolaeth leol gadarn ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae arfarniad ardal gadwraeth yn un ffordd o nodi'r asedau hyn.
- 5.1.4 Rhaid ychwanegu rhestr fabwysiedig o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig at y cofnod amgylchedd hanesyddol lleol er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad ato. Wedi hynny rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ddatblygu polisiau cynllun lleol perthnasol y gellir eu defnyddio i wneud penderfyniadau.
- 5.1.5 Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael yma: <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN.pdf>

## 5.2 Llanbedr Pont Steffan

- 5.2.1 Mae gan Lanbedr Pont Steffan ychydig o adeiladau hanesyddol sydd o arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol lleol arbennig ac sydd heb eu dynodi yn eu rhinwedd eu hunain.
- 5.2.2 Byddai cydnabod yr adeiladau hyn trwy eu cynnwys ar 'restr leol' yn:
- Cydnabod bod yr adeiladau hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan bobl leol
  - Rhoi cyfle i'r gymuned gymryd rhan yn y gwaith o'u nodi a gofalu amdanynt yn briodol
  - Caniatáu i'r Cyngor wneud cais am gyllid neu gynlluniau grant a fyddai'n darparu cyfleoedd adfywio ar gyfer adeiladau rhestredig lleol
  - Galluogi ystyried newidiadau yn ofalus trwy'r broses gynllunio i sicrhau eu bod yn gadarnhaol ac nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar yr asedau, eu lleoliad na'r cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt.

## 5.3. Argymhelliad

- 5.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n nodi'r meini prawf ar gyfer cynnwys adeiladau ar restr o'r fath a datblygu'r rhestr.
- 5.3.2 Dylai cymunedau lleol fod yn rhan o'r broses ddewis.
- 5.3.3 Dylai Cyngor Sir Ceredigion ddatblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol.
- 5.3.4 Mae'r canlynol yn rhestr o adeiladau o ddiddordeb lleol arbennig (nad ydynt eisoes wedi'u dynodi) yn Llanbedr Pont Steffan y gellid ystyried eu cynnwys:
- Dresden House, 1-4 Stryd y Coleg
  - Neuadd Fictoria, Ffordd y Bryn (ddim yn yr ardal gadwraeth)
  - Capel Shiloh
  - 21 y Stryd Fawr (Bank House)
  - 37 y Stryd Fawr (hen fanc sydd yn wag)
  - 4 y Stryd Fawr ar y gyffordd gornel â Stryd Sant Thomas (Roberts Electrical)
  - Tafarn yr Ivy Bush?
  - 21, 23 a 25 Stryd y Bont
  - Y Bryn, Ffordd y Gogledd

- Northgate House, Ffordd y Gogledd (Deintyddfa Pont Steffan)
- Glandulas House, Campws y Brifysgol
- Neuadd Burgess, Stryd y Coleg



**Ffigur 8 Northgate House, argymhellir y dylid ystyried ei gynnwys ar restr leol er gwaethaf newidiadau diweddarach am ei fod wedi cadw ei raddfa a'i ffurf wreiddiol ac fel adeilad cornel allweddol ar hyd y ffordd fynediad ogleddol i'r ardal gadwraeth**



**Ffigurau 9 a 10 Bank House, argymhellir ei gynnwys ar restr leol hefyd oherwydd ei werth hanesyddol a'i nodweddion pensaernïol sydd wedi goroesi**

## 6. YSTYRIED GORFODI

### 6.1 Cyflwyniad

- 6.1.1 Mae gan orfodi rôl allweddol i'w chwarae wrth ddiogelu ardaloedd cadwraeth.
- 6.1.2 Mae'n hanfodol sicrhau bod holl berchnogion a meddianwyr adeiladau'n deall lle mae cyfyngiadau ar ddatblygu, beth yw eu hawliau datblygu a ganiateir, a'u bod yn gallu cysylltu â'r ACLI am gyngor.
- 6.1.3 Mae monitro rheolaidd yn ddull mwy rhagweithiol ar gyfer ACLlau a allai helpu i leihau nifer y tramgwyddau.
- 6.1.4 Trafod a negodi gyda'r perchennog/meddiannwr yw'r cam cyntaf i'w gymryd mewn unrhyw achos a all arwain at ateb addas heb fod angen cymryd camau gorfodi.

### 6.2 Llanbedr Pont Steffan

- 6.2.1 Nid yw unrhyw wybodaeth adolygiad sylfaen gynhwysfawr ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Llanbedr Pont Steffan.
- 6.2.2 Mae'n bosibl na fydd perchnogion a meddianwyr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir a lle gallai fod cyfyngiadau ar ddatblygu.

### 6.3. Argymhelliad

- 6.3.1 Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi.
- 6.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion.
- 6.3.3 Dylai'r Cyngor gymryd camau i sicrhau bod pob perchennog a meddiannwr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau.
- 6.3.4 Dylid cynnal arolwg ffotograffig dilynol yn ystod yr adolygiad nesaf o'r arfarniad ardal gadwraeth, bob pum mlynedd yn ddelfrydol.

## 7. CYFLEOEDD AR GYFER ADFYWIO

### 7.1 Cyflwyniad

- 7.1.1 Gall ardaloedd hanesyddol fod yn ffocws pwysig ar gyfer adfywio cymunedol. Mae eu cymeriad unigryw yn ased a all greu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cymunedau Cymru. Gall adfywio helpu i greu ymdeimlad o le a hynodrwydd lleol, a chefnogi sgiliau gwerthfawr ac annog buddsoddiad.

7.1.2 Mae llawer o ardaloedd hanesyddol wedi dioddef o ddirywiad mewn gweithgarwch economaidd, sy'n arwain at adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio a buddsoddiad isel. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen cymryd camau wedi'u targedu i ddatgloi potensial a gwireddu buddion ehangach. Gall gweithgareddau adfywio roi ystyr a pherthnasedd newydd i asedau hanesyddol, gan roi bywyd newydd i adeiladau ac ardaloedd sy'n cael eu tanddefnyddio a'u tanbriso.



*Ffigur 11 Mae siopau a fflatiau gwag ynghyd â ffryntiadau o ansawdd gwael yn ddigroeso ac yn effeithio'n negyddol ar gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth*

## 7.2 Llanbedr Pont Steffan

- 7.2.1 Yn wahanol i rai o'r ardaloedd cadwraeth eraill yng Ngheredigion, nid yw Llanbedr Pont Steffan wedi elwa o gynllun adfywio neu gynllun buddsoddi mewn treflun blaenorol.
- 7.2.2 Tra bod amrywiaeth o siopau annibynnol yn y dref mae rhai eiddo gwag a rhai siopau nad ydynt yn para'n hir iawn. Mae nifer fawr o gaffis, bwytai a siopau trin gwallt sydd i'w weld yn gwneud yn dda yn y dref. Fodd bynnag, byddai'n elwa o gael amrywiaeth ehangach o siopau a phethau i'w gwneud os yw am leihau dibyniaeth pobl leol ar siopa yn y trefi mwy Aberystwyth a Chaerfyrddin. Mae rhai siopau wedi'u sefydlu ar y stadau diwydiannol yn hytrach nag yng

nghanol y dref. Gall hyn fod oherwydd problemau parcio, rhenti is, diffyg eiddo addas, neu ryw reswm arall.

7.2.3 Mae'r dref yn elwa o amrywiaeth dda o amwynderau lleol gan gynnwys: meddygfa a deintyddfa; llyfrgell; canolfan chwaraeon; ysgol a phrifysgol; gorsaf tân, heddlu ac ambiwlans; canolfan deulu; amgueddfa; eglwysi a chapeli, tafarndai; bwytai, meysydd parcio, meysydd chwaraeon a lleoliadau cymunedol.

7.2.4 Yn gyffredinol mae'r dref yn lân a'r strydoedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Ar adeg ysgrifennu, dim ond ychydig o ardaloedd problemus bach sydd yma a allai fod ag angen ychydig o sylw (wedi'u rhestru isod). Yn ogystal, mae materion cynnal a chadw yn cronni yn achos rhai adeiladau unigol ac mae rhai adeiladau masnachol yng nghanol y dref wedi bod yn wag ers amser (wedi'u rhestru isod hefyd).

- Man agored gwyrdd i'r gorllewin o faes parcio'r Llew Du
- Lle mae'r lôn o dan Neuadd y Dref yn cwrdd ag archfarchnad Sainsbury's
- Mannau parcio a datblygiadau iard gefn ar ochr ddeheuol Stryd y Farchnad (er gwaethaf y gwelliannau a wnaed i'r ochr ogleddol)
- Y maes parcio / ardal derbyn nwyddau i'r gorllewin o archfarchnad Sainsbury's (lleoliad yr ardal gadwraeth)
- Gardd gornel ar ddiwedd cyffordd Teras y Deml a Heol Hafan Deg (lleoliad yr ardal gadwraeth)
- 10, 11 Sgwâr Harfford, yr hen siop Spar, cornel lôn Stryd y Farchnad a Stryd y Coleg – eiddo gwag hirdymor
- 34 y Stryd Fawr – eiddo gwag hirdymor
- 18, 19 Sgwâr Harford – eiddo gwag hirdymor
- Hen Fferyllfa Lloyds, Stryd y Bont – eiddo gwag hirdymor
- Neuadd Burgess, Stryd y Coleg – eiddo gwag hirdymor
- Y Tabernacl i'r de o'r Stryd Fawr – eiddo gwag hirdymor
- Eiddo manwerthu / masnachol y tu ôl i Neuadd y Dref – eiddo gwag hirdymor
- Diffyg lle ar gyfer biniau yng nghanol y dref yn golygu bod y strydoedd yn aml yn llawn sbwriel / bagiau yn aros i'w casglu
- Defnyddio caedau rholio metel allanol ar gyfer diogelwch



### 7.3 Argymhellion

- 7.3.1 Bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r Cynllun Gwella – Perfformiad 2011-12 i fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.
- 7.3.2 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod gan berchnogion a defnyddwyr adeiladau yr offer angenrheidiol i wneud eu gwaith atgyweirio ac adnewyddu priodol eu hunain. Gall hyn gynnwys canllawiau, hyfforddiant a mentora.
- 7.3.3 Dylai'r Cyngor gysylltu â pherchnogion adeiladau eiddo gwag hirdymor i sefydlu'r rhesymau dros eu diffyg defnydd a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ceisiadau ar gyfer cynlluniau ariannu adfywio.



***Ffigur 12 Mae 17 Sgwâr Harfford wedi gweld amrywiaeth ddiddorol o siopau gwib yn ddiweddar, gan greu ffryntiad stryd amrywiol sy'n annog ymwelwyr i ddychwelyd ar gyfer arlwy manwerthu newydd yn ogystal â darparu cyfleoedd i fanwerthwyr llai dreialu'r farchnad***

- 7.3.4 Ymchwilio i'r posibilrwydd pellach o siopau gwib mewn adeiladau gwag yn y brif ardal siopa, yn enwedig yn ystod y gwyliau. Bu peth llwyddiant eisoes gyda hyn yn achos 17 Sgwâr Harfford.
- 7.3.5 Ystyried gwneud cais am gynlluniau grant adfywio i'r dref pan fyddant ar gael. Dylai hyn gynnwys atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau presennol, gwelliannau i'r strydlun, cydlynu dodrefn stryd ac arwyddion, disodli nodweddion pensaernïol amhriodol megis ffenestri, blaenau siopau a ffasgia, disodli caeadau diogelwch rholio metel allanol gyda dewisiadau eraill mwy addas.

- 7.3.6 Ystyried cynllun parcio rhatach 'cymunedau lleol a thrigolion' i annog pobl leol i ymweld a siopa yng nghanol y dref ac aros yn hwy.
- 7.3.7 Lle bo'n ymarferol, trwy'r system gynllunio, dylai'r Cyngor annog ystod eang o fanwerthwyr annibynnol ac eiddo masnachol yng nghanol y dref.
- 7.3.8 Gweithio gyda rhanddeiliaid, partneriaid a chymunedau ar ddatblygu cynnig twristiaeth a digwyddiadau cydgysylltiedig (gweler 4.2.7).



**Ffigur 13 Mae caeadau rholio diogelwch yn creu ffryntiad marw, yn enwedig gyda'r hwy. Mae mesurau diogelwch eraill, mwy priodol ar gael**

## 8. CANLLAWIAU HYSBYSEBU A RHEOLI

### 8.1 Cyflwyniad

- 8.1.1 Un o amcanion y system rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at olwg yr amgylchedd. Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys eiddo masnachol yn amrywio o siopau cornel bach i ganolfannau masnachol ffyniannus, felly gall hysbysebu awyr agored fod yn hollbwysig i fywiogrwydd masnachol.



**Ffigur 14 Gellir rheoli arwyddion a hysbysebion gwael o fewn ardaloedd cadwraeth gan helpu i leihau effaith niweidiol siopau gwag**

Mae'r mathau o hysbysebion sydd angen caniatâd cynllunio yn cynnwys hysbysebion wedi'u goleuo ar eiddo busnes a hysbysebion ar hysbysfyRDDau o amgylch safleoedd datblygu.

- 8.1.2 Gall awdurdodau hefyd ddewis mabwysiadu polisïau rheoli hysbysebion fel rhan o'u cynigion ar gyfer cadw neu wella ardaloedd cadwraeth, er enghraifft, trwy ddynodi ardaloedd rheoli hysbysebion arbennig. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio rheolaethau o'r fath mewn modd hyblyg mewn ardaloedd cadwraeth i warchod y nodweddion hynny sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol a arweiniodd at y dynodiad.

## 8.2 Llanbedr Pont Steffan

- 8.2.1 Mae gan yr ardal gadwraeth graidd masnachol. Mae'r ardal hon yn cynnwys ffryntiadau siopau hanesyddol, tafarndai ac adeiladau masnachol sydd wedi goroesi ac sydd wedi'u disodli. Mae rhywfaint o ffasgia a hysbysebion siopau o ansawdd gwael neu wedi'u dylunio'n wael i'w weld, yn enwedig mewn ffenestri siopau mawr, neu ffasgia ac arwyddion segur sydd heb gael eu symud o eiddo manwerthu gwag.
- 8.2.2 Mae adeiladau masnachol hefyd yn arddangos arwyddion ac er bod y mwyafrif o'r rhain o ansawdd da ac wedi'u lleoli'n dda, mae rhai achosion lle gellid gwneud gwelliannau.

## 8.3 Argymhellion

- 8.3.1 Ni ystyrir bod angen ardal o reolaeth hysbysebu arbennig yn Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan ar hyn o bryd. Yn hytrach, dylai trafodaethau â pherchnogion a rheolwyr siopau fod yn flaenoriaeth. Gellid ystyried ardal rheolaeth arbennig pe bai'r trafodaethau'n methu.
- 8.3.2 Cynnal asesiad ac adolygiad o arwyddion ar draws yr ardal gadwraeth.
- 8.3.3 Adolygu canllawiau blaen siopau Aberystwyth 2013 i ymdrin ag arfer da ym mhob ardal gadwraeth ac ystyried ail-ryddhau'r canllawiau gyda hyrwyddiad ychwanegol ledled ardaloedd cadwraeth Ceredigion.



*Ffigur 15 Gellir addasu hunaniaethau corfforaethol yn llwyddiannus i ddarparu arwyddion siop o ansawdd uchel*

8.3.4 Ceisio cyllid adfywio i annog perchnogion a meddianwyr i wella eu harwyddion a blaenau siopau a chwilio am atebion gwell ar gyfer arwyddion ar eiddo gwag er mwyn annog buddsoddwyr.

## 9. ADEILADAU MEWN PERYGL

### 9.1 Cyflwyniad

9.1.1 Cadw'r defnydd o adeiladau a'u cynnal yw congfaen rheolaeth lwyddiannus o ardal gadwraeth. Mae adeiladau sy'n cael eu hesgeuluso a'u tanddefnyddio yn niweidio bywiogrwydd ac atyniad ardaloedd cadwraeth.

### 9.2 Adeiladau Gwag yn Llanbedr Pont Steffan

9.2.1 Mae nifer fach o adeiladau gwag o fewn y brif ardal siopa sydd ar hyn o bryd yn cael effaith negyddol ar gymeriad a golwg yr ardal. Mae arwyddion clir nad yw'r adeiladau hyn yn cael eu cynnal a'u cadw ac y gallent fod mewn perygl, ond o gael eu cadw byddent yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal.

9.2.2 Rhestrir yr adeiladau hyn uchod yn 7.2.4.



***Ffigur 16 Mae Y Tabernacl, Adeilad Rhestredig Gradd II mewn perygl ond mae potensial iddo fod yn ased i'r dref. Dylai'r adeilad hwn fod yn flaenoriaeth cyn iddo ddadfeilio ymhellach***

- 9.2.3 Dim ond un Adeilad Rhestredig sydd mewn perygl o fewn yr ardal gadwraeth, sef hen adeilad Y Tabernacl y tu ôl i'r Stryd Fawr i'r de (Cadw Cyf. 10444). Mae'r adeilad hwn yn wag a chyda gofynion cynnal a chadw ac atgyweirio eithafol. Bu'n wag ers amser ond eto mae'n bwysig i hanes ac arwyddocâd Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan. Ceir mynediad iddo trwy gyn-fynedfa goets o'r Stryd Fawr ac ar wahân i fynediad i fflatiau preifat prin y defnyddir yr ardal hon gan y cyhoedd. Gyda buddsoddiad, mae gan yr adeilad y maint, y cymeriad a'r diddordeb hanesyddol i fod yn ased i'r dref.
- 9.2.4 Er na ystyrir bod Neuadd y Dref (Cadw Cyf.: 10439) ei hun mewn perygl, mae angen gwneud cryn dipyn o waith cynnal a chadw arno, yn enwedig yn y cefn ac i'r tŵr cloc



***Ffigur 17 Mae tŵr cloc Neuadd y Dref yn nodwedd bensaernïol allweddol ond yn anffodus mae angen gwneud tipyn o waith atgyweirio iddo***

### 9.3 Argymhellion

- 9.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. Byddai hyn yn amlinellu dull strategol o nodi a rheoli'r adeiladau hyn. (gweler: <https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/listed-buildings/listed-buildings-risk#section-managing-listed-buildings-at-risk>).

- 9.3.2 Mae'n ofynnol i berchnogion adeiladau rhestredig eu cadw mewn cyflwr rhesymol. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol bwerau i gyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill mewn achosion eithafol. Os bydd trafodaethau'n aflwyddiannus, dylai'r Cyngor ystyried defnyddio ei bwerau statudol.
- 9.3.3 Dylai'r Cyngor, er mwyn cwmpasu'r holl ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig ac eiddo heb eu dynodi, ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cynlluniau a chyrsgiau hyfforddi – hyfforddi meddianwyr a pherchnogion mewn arferion cadwraeth da, yn enwedig atgyweirio a chynnal a chadw gyda deunyddiau priodol. Yn unol â Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Aberystwyth, dylai'r Cyngor geisio cyllid i brynu a chadw adeilad rhestredig gwag i sefydlu sefydliad hyfforddi Cadwraeth mewn partneriaeth â sefydliadau megis Cadw, y Brifysgol, CBHC, Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru, Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE), Prosiect Ystrad Fflur, Canolfan Tywi, Hyfforddiant Ceredigion (HCT), Addysg Oedolion Cymru, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, neu'r tebyg. Gallai hyn hyfforddi pobl leol mewn technegau cadwraeth, creu swyddi sy'n darparu gwasanaethau cadwraeth lleol i berchnogion a meddianwyr yn y trefi a'r ardaloedd cyfagos. Gallai hyn ddarparu adnodd gwerthfawr a chynaliadwy a fyddai'n cefnogi adfywio canol trefi ac ardaloedd cadwraeth Ceredigion, yn ogystal â darparu rhywfaint o gyflogaeth, uwchsgilio perchnogion a meddianwyr, a helpu i gadw a gwella pensaernïaeth hanesyddol y sir. Gellid defnyddio model tebyg i ymddiriedolaeth cadwraeth adeiladau Adfer Ban a Chwm Sir Gaerfyrddin. Byddai dosbarthu cyhoeddiad megis 'Stitch in Time' (IHBC a SPAB) neu gyfeirio at gyrsgiau ac adnoddau ar-lein (SPAB, Canolfan Tywi, Cadw, ac ati) i bob eiddo o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion yn ddechrau da i'r broses hon.
- 9.3.4 Ceisio cyllid adfywio i annog perchnogion a meddianwyr i gynnal a chadw ac atgyweirio eu heiddo ac annog buddsoddwyr ar gyfer adeiladau gwag.
- 9.3.5 Mae Y Tabernacl yn achos arbennig o frys a dylid rhoi blaenoriaeth iddo. Byddai defnydd cynaliadwy hirdymor ar gyfer yr adeilad yn sicrhau ei fod yn goroesi ond bydd angen buddsoddiad sylweddol, gan greu diffyg cadwraeth yn nhermau ariannol wrth gwrs. Fodd bynnag, gallai'r manteision hirdymor ar gyfer yr adeilad a'r dref fod yn sylweddol. Gall Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau neu'r tebyg fod yn gyfrwng addas ar gyfer ei adfywio.

## 10. GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL

### 10.1 Cyflwyniad

- 10.1.1 Yn ogystal â'r offer gorfodi amrywiol sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol, mae cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gwella'r amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn

partneriaeth ag asiantaethau cenedlaethol, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau lleol megis Cynghorau Tref a fforymau busnes.

10.1.2 Mae cyfleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn aml yn ymwneud â seilwaith ffisegol y dref, gan gynnwys priffyrdd, gwaith gan ymgymeryr statudol, iechyd yr amgylchedd, tai ac eraill.

10.1.3 Gall ymgysylltu â'r gymuned a mentora hefyd greu newid cadarnhaol o fewn ardaloedd dynodedig.

## 10.2 Llanbedr Pont Steffan

10.2.1 Mae'r Cynllun Lle wedi annog sefydlu gweithgorau partneriaeth.

10.2.2 Mae dodrefn stryd, mannau cyhoeddus ac arwynebau anghydlynol wedi'u nodi yn yr arfarniad ac yn amharu ar ansawdd cyffredinol yr ardal. Gellid adolygu arwyddion stryd er mwyn atal y strydlyn rhag troi'n anniben gydag arwyddion segur.

10.2.3 Ar wahân i Faes Parcio'r Comin, mae meysydd parcio cyhoeddus wedi'u lleoli y tu allan i ffin yr ardal gadwraeth ar y cyfan ond maent yn rhan o'i lleoliad yn aml, gallant fod yn ymwthiol ac yn gyffredinol dyma'r rhan gyntaf o'r dref y bydd ymwelwyr yn ei gweld. Mae llawer o leoedd parcio llai yn y dref hefyd sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan bobl leol yn lle talu i barcio mewn maes parcio.



*Ffigur 18 Mewn rhai achosion gellir rheoli datblygiadau iard gefn trwy'r system gynllunio*

10.2.4 Mae rhai datblygiadau iard gefn, yn enwedig i'r de o'r Stryd Fawr, i'r gorllewin o Faes Parcio'r Comin y tu ôl i Deras Harfford, ochr ddeheuol Stryd y Farchnad ac i'r gogledd o Stryd y Bont nad ydynt yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal gadwraeth. Yn gyffredinol mae'r rhain yn cynnwys estyniadau bach, garejys, ffensys a therfynau. Anaml y mae'r cyhoedd yn gweld rhai o'r ardaloedd hyn tra bod eraill yn amlwg oherwydd traffig traed o feysydd parcio ac amwynderau eraill y dref.

### 10.3 Argymhellion

- 10.3.1 Rhaid i dîm rheoli datblygu'r Cyngor annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau newydd o fewn ardaloedd cadwraeth, yn enwedig trwy ddefnyddio'r broses ymholi cyn ymgeisio a sicrhau bod y CCA presennol yn addas i'r diben. Mae'n bosibl y bydd angen adolygu ac ail-ryddhau'r CCA a'u hyrwyddo yn enwedig o fewn ardaloedd dynodedig.
- 10.3.2 Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig, a bod adnoddau ar gael ar gyfer cymryd camau gorfodi os a phan fo angen.
- 10.3.3 Os oes angen, cynnig hyfforddiant i Swyddogion Priffyrdd ar ddylunio da mewn ardaloedd cadwraeth. Mae rhai cyhoeddiadau a chanllawiau ardderchog ar gael fel '*Streets for All*' Historic England (<https://historicengland.org.uk/images-books/publications/streets-for-all/heag149-sfa-national/>).
- 10.3.4 Ar y cyd â'r Adran Briffyrdd, llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. Bydd yn rhoi sylw i wynebau, rheiliau diogelwch, dodrefn stryd, arwyddion, goleuadau a nodweddion ffyrdd a diogelwch priffyrdd. Gellid addasu enghreifftiau o Gynghorau eraill i'w defnyddio yng Ngheredigion neu gellid ceisio cyllid ar gyfer datblygu a gweithredu canllaw dylunio.
- 10.3.5 Gyda'r gymuned leol, sefydlu grŵp cymunedol cynghori / gwella'r ardal gadwraeth a all gyflawni tasgau bach a fyddai'n gwneud gwahaniaeth mawr megis codi sbwriel, gwella meysydd parcio, nodi arwyddion i'w symud, ac ati (gweler: <https://www.keepbritaintidy.org/sites/default/files/resources/How%20To%20Organise%20A%20Litter-Picking%20Event.pdf>). Gallai hefyd wneud sylwadau ar gynigion datblygu mewn ardaloedd cadwraeth a dwyn unrhyw faterion yn y dyfodol o fewn yr ardal gadwraeth at sylw'r Cyngor. Dylai'r Cyngor ddarparu mentora a hyfforddiant.



10.3.6 Gyda'r gymuned leol, cynnal asesiad o'r meysydd parcio o amgylch ffin yr ardal gadwraeth ac ystyried cynlluniau gwella, megis ail-wynebu, plannu coed, gwrychoedd, waliau cerrig naturiol neu'r tebyg i wella eu heffaith gweledol.

## **11. COED, TIRWEDD A MANNAU AGORED**

### **11.1 Cyflwyniad**

11.1.1 Mae coed yn elfen bwysig o gymeriad ac amwynder llawer o ardaloedd cadwraeth ac — ynghyd â mannau agored gwyrdd, gan gynnwys gerddi preifat — mae ganddynt rôl werthfawr i'w chwarae mewn gwasanaethau ecosystem. I gyd-fynd â'r rheolaethau dros goed mewn ardaloedd cadwraeth, mae'n syniad da i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisiau lleol penodol ar gyfer gwarchod a rheoli coed ac elfennau eraill o'r amgylchedd naturiol, megis gwrychoedd ac ymylon ffyrdd.

11.1.2 Gallai strategaeth ar gyfer coed gynnwys asesiad o'u gwerth o ran amwynder a bioamrywiaeth, a'u cyfraniad at wasanaethau ecosystem cyn bod pwysau i'w gwaredu. Gellid integreiddio gwarchod a rheoli coed a mannau agored mewn strategaeth seilwaith gwyrdd.

### **11.2 Llanbedr Pont Steffan**

11.2.1 Mae gan Lanbedr Pont Steffan nifer o goed unigol ac ardaloedd o orchudd coed yng nghanol y dref (gweler adran 12 o'r arfarniad) sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ei chymeriad a'i golwg. Mae nifer fawr o Orchmynion Cadw Coed yma hefyd.

11.2.2 Mae'r arfarniad wedi nodi nifer o fannau agored bach yn bennaf sy'n cyfrannu'n fawr at gymeriad a bywiogrwydd Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan.

11.2.3 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi mabwysiadu Strategaeth ar gyfer Gwyrddu Trefi ac mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd wedi cael ei gynnal gan ymgynghorwyr.



*Ffigur 19 Mae coed yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth*

### 11.3 Argymhelliad

- 11.3.1 Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol Seilwaith Gwyrdd perthnasol a mabwysiedig.
- 11.3.2 Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddarau a'u hadolygu'n rheolaidd.
- 11.3.3 Diogelu coed, manau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLI.
- 11.3.4 Cynnal adolygiad o'r coed o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai y tu allan i'r ardal gadwraeth ond sy'n cyfrannu at ei lleoliad.
- 11.3.5 Nodi cyfleoedd ar gyfer plannu coed, yn enwedig ar y cyd â gwella ardaloedd problemus y dref a'r meysydd parcio.
- 11.3.6 Cynnwys y gymuned leol trwy wahodd cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned/Tref i fod yn rhan o'r Cynllun Warden Coed.

## 12. MONITRO AC ADOLYGU

### 12.1 Cyflwyniad

- 12.1.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adolygu ardaloedd cadwraeth presennol 'o bryd i'w gilydd' – yn gyffredinol ystyrir mai bob pump i ddeng mlynedd yw'r arfer gorau.
- 12.1.2 Dylai'r adolygiad sefydlu'r cynnydd a wnaed ers yr arfarniad blaenorol a dylai gadarnhau neu ailddiffinio materion o ddiddordeb arbennig a hollbwysig. Dylai'r adolygiad hefyd adolygu'r cynllun rheoli a darparu argymhellion newydd lle bo'n briodol.
- 12.1.3 Mae monitro newid yn hanfodol er mwyn gallu gwerthuso effaith dynodiad a llwyddiant strategaethau rheoli o ran cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth.
- 12.1.4 Mae Cadw o'r farn mai'r llinell sylfaen ar gyfer adolygiad cyfnodol yw arolwg ffotograffig llawn sy'n cofnodi adeiladau o'r stryd, yn ogystal ag elfennau eraill o gymeriad, gan gynnwys coed, gerddi, ffiniau a golygfeydd. Mae lle i gynnwys grwpiau cymunedol lleol wrth wneud y gwaith hwn.

### 12.2 Llanbedr Pont Steffan

- 12.2.1 Ar hyn o bryd nid oes gan Lanbedr Pont Steffan Gynllun Rheoli ar gyfer yr ardal gadwraeth.
- 12.2.2 Mae'r Cyngor newydd benodi Swyddog Cynllunio newydd gyda chyfrifoldeb am gadwraeth.

### 12.3 Argymhellion

- 12.3.1 Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r arfarniad a'r cynllun rheoli hwn fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.
- 12.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf.
- 12.3.3 Dylai'r Cyngor gynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol, lle bo modd.
- 12.3.4 Dylai'r Cyngor sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt.
- 12.3.5 Dylai'r Cyngor barhau i hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng cynghorau lleol, adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni.



## ATODIAD A: CYNLLUN GWEITHREDU

GWEITHREDU / ARGYMHELLION (AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI)	CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID	BLAENORIAETH
Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio	CSC – Treftadaeth a Pholisi	<b>Uchel</b> <b>0-1 flwyddyn</b>
Gweithredu'r estyniad ffin arfaethedig.	CSC – Treftadaeth a Pholisi Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan Y gymuned leol	<b>Uchel</b> <b>0-1 flwyddyn</b>
Dylid cymhwyso Cyfarwyddyd Erthygl 4(1 neu 2) i Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan	CSC – Treftadaeth a Pholisi Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan Y gymuned leol	<b>Uchel</b> <b>0-1 flwyddyn</b>
Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi.	CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol	<b>Uchel</b> <b>0-1 flwyddyn</b> <b>Parhaus</b>
Ymrwymiad i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion (Siarter Gorfodi neu'r tebyg). Trafod â'r perchnogion ynglŷn â thor rheolau. Cyflwyno Hysbysiadu Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill yn ôl yr angen. Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig.  Gorfodaeth ar gyfer arwyddion a ffasgia siopau anawd-	CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol	<b>Uchel</b> <b>0-1 flwyddyn</b> <b>Parhaus</b>
Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol Seilwaith Gwyrdd perthnasol a mabwysiedig. Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddarau a'u hadolygu'n	CSC – Ecoleg, Polisi a Rheoli Datblygu Y gymuned leol	<b>Uchel – parhaus</b>
Diogelu coed, manau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLI a rheoli datblygu. Nodi cyfleoedd ar gyfer plannu coed ac annog cyfranogiad yn y Cynllun Warden Coed.	CSC – Treftadaeth, Polisi, Ecoleg a Rheoli Datblygu Y gymuned leol	<b>Uchel – parhaus</b>
Sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod	CSC	<b>Uchel – parhaus</b>
Hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni.	CSC	<b>Uchel – parhaus</b>

GWEITHREDU / ARGYMHELLION (AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI)	CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID	BLAENORIAETH
Sicrhau bod cynlluniau adfywio a chynlluniau eraill yn defnyddio egwyddorion dylunio ar sail treftadaeth i sicrhau bod arwyddocâd yr ardaloedd hyn yn llywio datblygiad unrhyw gynigion. Llunio briffiau dylunio ar gyfer safleoedd datblygu a mewnlenni posibl o fewn ac yn lleoliad yr ardal gadwraeth. Annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau newydd o fewn ardaloedd cadwraeth. Llunio canllawiau ar gyfer tai amlfeddiannaeth i sicrhau bod nodweddion yr ardal gadwraeth yn cael eu hystyried a bod digon o finnau storio	CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Rheoli Datblygu  Cynghorau Tref a Chymuned / y gymuned leol	<b>Uchel 0-1 flwyddyn Parhaus</b>
Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan. Sicrhau bod pob perchennog a meddiannwr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau, yn	CSC – Treftadaeth, Ecoleg a Pholisi  Y gymuned leol	<b>Canolig 2-3 blynedd</b>
Sefydlu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. Blaenoriaethu Y Tabernacl	CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Tai  Cymunedau lleol	<b>Canolig 2-3 blynedd</b>
Creu cynllun dehongliad a digwyddiadau ar gyfer y dref, cynnal archwiliad dehongliad, digwyddiadau ac arwyddion, sicrhau bod y dehongliad yn gyson, yn gyfoes ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Codi ymwybyddiaeth o gysylltiadau han-	CSC – Treftadaeth, Ecoleg a Pholisi  Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan  Y gymuned leol	<b>Canolig 2-3 blynedd</b>
Adolygu canllawiau blaenau siopau Aberystwyth 2013 i gwmpasu arfer da ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion ym mhob ardal gadwraeth. Ceisio cyllid ar gyfer rhaglen grantiau blaenau siopau ac arwyddion. Ystyried mesurau gorfodi yn ôl yr angen.	CSC – Polisi a Threftadaeth  Grwpiau Awdurdodau lleol eraill, Swyddog Cadwraeth De a Chanolbarth Cymru	<b>Canolig 2-3 blynedd</b>
Gweithio gyda'r Cyngor Tref i weithredu ei Gynllun Lle ar waith i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau o fewn yr ardal gadwraeth.	CSC – Polisi a Threftadaeth  Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan  Y gymuned leol	<b>Canolig 2-3 blynedd</b>
Sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' ar gyfer y sir gyfan. Datblygu a mabwysiadu	CSC – Treftadaeth a Pholisi  Cymunedau lleol	<b>Canolig 2-3 blynedd</b>
Ceisio arian adfywio a chyllid arall ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau cynnal a chadw, atgyweirio, adfywio a hyfforddi. Dylid cynnwys gwaith atgyweirio a chynnal a chadw, gwelliannau i'r stryd, cydlynu dodrefn stryd ac arwyddion, disodli nodweddion pensaernïol amhriodol, buddsoddi mewn adeiladau gwag, ac ati. O bosibl ar y cyd	CSC – Treftadaeth a Pholisi, Adfywio	<b>Canolig 2-3 blynedd</b>

GWEITHREDU / ARGYMHELLION	CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID	BLAENORIAETH
Ceisio cyllid i brynu a chadw adeilad rhestr-edig gwag i sefydlu canolfan hyfforddi cadwraeth mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.	CSC – Adfywio, Treftadaeth  Cadw, y Brifysgol, CBHC, Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru, Sefydliad Ymchwil Adeiladu, Prosiect Ystrad Fflur Canolfan Tywi, Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT), Addysg Oedolion Cymru, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol ac ati	<b>Canolig 2-3 blynedd a pharhaus</b>
Sefydlu'r rhesymau y tu ôl i eiddo gwag hirdymor. Ceisio cynlluniau ariannu adfywio perthnasol. Ymchwilio i'r posibilrwydd o ehangu'r defnydd o siopau gwib mewn adeiladau gwag o fewn yr ardal gadwraeth. Lle bo'n ymarferol, trwy'r system gynllunio, annog amrywiaeth eang o fanwerthwyr annibynnol ac eiddo masnachol.	CSC – Treftadaeth a Pholisi, Adfywio  Cynghorau Tref a Chymuned, y gymuned leol, perchnogion adeiladau a busnesau	<b>Canolig 2-3 blynedd a pharhaus</b>
Sefydlu grŵp cymunedol cynghori / gwella ardal gadwraeth a all gyflawni tasgau bach i wella'r ardal gadwraeth a hefyd rhoi sylwadau ar gynigion datblygu. Nodi safleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol ac adolygu meysydd parcio porth.	CSC – Treftadaeth, Polisi Cynghorau Tref a Chymuned, y gymuned leol	<b>Canolig 2-3 blynedd a pharhaus</b>
Datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth ar gyfer ardaloedd cadwraeth (e.e. ffenestri hanesyddol, microgynhyrchu, insiwleiddio muriau allanol, cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni ac ati.)	CSC – Treftadaeth  Awdurdodau Lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De Cymru a'r Canolbarth, Fforwm Treftadaeth Adeiledig Cadw, IHBC, Canolfan Tywi	<b>Isel 3-5 mlynedd</b>
Priffyrdd – llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. Hyfforddiant treftadaeth i Swyddogion Priffyrdd, yn ôl yr angen.	CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio a Phriffyrdd  Llywodraeth Cymru?	<b>Isel 3-5 mlynedd</b>
Ystyried cynllun parcio rhatach 'cymunedau lleol a thrigolion' ac adolygu'r parcio presennol ar y stryd.	CSC – Polisi, Adfywio a Phriffyrdd	<b>Isel 3-5 mlynedd</b>
Ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf. Arolwg ffotograffig dilynol fel rhan o'r adolygiad nesaf. Cadw'r Cynllun Gweithredu yn gyfoes a chyhoeddi cynnydd. Cynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol.	CSC – Polisi a Threftadaeth Ymgynghorwyr	<b>Isel 5-10 mlynedd</b>

**ATODIAD B: CYFEIRIADAU A LLYFRYDDIAETH****Deddfwriaeth a Chanllawiau**

- Cadw (2011) 'Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy': [https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Conservation\\_Principles%20for%20the%20sustainable%20management%20of%20the%20historic%20environment%20of%20Wales.pdf](https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Conservation_Principles%20for%20the%20sustainable%20management%20of%20the%20historic%20environment%20of%20Wales.pdf)
- Cadw (2017) 'Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Setting%20of%20Historic%20Assets%20in%20Wales%20EN.pdf>
- Cadw (2017) 'Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Conservation%20Areas%20in%20Wales%2028424%20EN.pdf>
- Cadw (2017) 'Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Change%20to%20Listed%20Buildings%20in%20Wales%2024303%20EN.pdf>
- Cadw (2017) 'Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Historic%20Character%20in%20Wales%20%20EN.pdf>
- Cadw (2017) 'Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN.pdf>
- Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion (CDLI1): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) CCA Cyngor Sir Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990): <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/9/contents>
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted>
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents>
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol: <https://www.gov.wales/technical-advice-note-tan-24-historic-environment>



Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021): [https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11\\_0.pdf](https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11_0.pdf)

## Llyfryddiaeth

Anon. (2024) *History of the Lampeter Campus* (Prifysgol y Drindod Dewi Sant) Boase, G. C. (1885-1900) 'Harford, John Scandrett' yn *Dictionary of National Biography*, 1885-1900, Cyfrol 24

Bogart, D. (u.d.) *The Turnpike Roads of England and Wales*

British Geological Survey (2007) *Geology of the Lampeter district: a brief explanation of the geological map Sheet 195 Lampeter*

Crouch, D. (1989) 'The earliest original charter of a Welsh king', *Bwletin y Bwrdd Astudiaethau Celt-aidd* 36 (1989): 125-131.

Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) *CYNLLUN RHEOLI CRAIDD GAN GYNNWYS CADWRAETH*

Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi (1937) *Trafodion a Chofnod Archeolegol*. Cyfrol 12, 1937

Cyngor Sir Ceredigion (2019) Cynllun Lle Llanbedr Pont Steffan (Drafft)

Davies J.C. (1911) *Folk-Lore of West and Mid-Wales*

Dunn, C.J. (1969) *Archaeology in Wales*

Felstead, A. Franklin, J. and Pinfield, L (1993) *Directory of British Architects 1834-1900* (R.I.B.A., 1993)

Higginbotham, P. (2000) *The Workhouse in Lampeter, Cardiganshire*

Johnes, M (2014) *Evacuation to Wales* (Prifysgol Cymru Abertawe)

Kemp (2015) *THE BLACK LION HOTEL, LAMPETER, CEREDIGION: ARCHAEOLOGICAL EVALUATION* (Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed)

Lewis, S. (1833) *Topographical Dictionary of Wales*

Meyrick, S.R. (1810) *The History and Antiquities of the County of Cardigan*

Murphy, K. Murphy, K (2021) *The Archaeology of the Medieval Towns of Southwest Wales – Lampeter* (Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed)

Ogilvy, J (1675) *Britannia*

Orbach, J (2007) – *A Pevsner Perambulation in Heritage in Wales*, Gwanwyn 2007

Page, N. (2004) *Prehistoric Undefended Settlements Project, Southwest Wales: A Review of the Lithic Evidence from the Regional SMR*

Poucher (2022) *UNIVERSITY OF WALES TRINITY ST DAVID CAMPUS, LAMPETER, CEREDIGION: HISTORIC ENVIRONMENT DESK-BASED ASSESSMENT* (Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed)

Sheppard, T. H. (2004) *The geology of the area around Lampeter, Llangybi and Llanfair Clydogau*

Soulsby, I. (1983) *The Towns of Medieval Wales – A study of their history, archaeology and early topography*

Traws Link Cymru (2021) *History of the Lines*

Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed (2021) *Proposed Retail Development on Playing Field alongside Pontfaen Road, Lampeter, Ceredigion*

### Gwefannau ac Adnoddau Rhyngwlad

<https://archwilio.org.uk/>

<https://archives.wales/>

<https://archives.library.wales/index.php/harford-family-of-falcondale-and-peterwell> – *Harford family, of Falcondale and Peterwell – National Library of Wales Archives and Manuscripts*

<https://www.british-history.ac.uk/>

<https://cadw.gov.wales/advice-support/cof-cymru/search-cadw-records>

<https://ceredigionhistory.wales/lampeter/>

<https://coflein.gov.uk>

<https://datamap.gov.wales/>

<https://www.discoverceredigion.wales/areas-of-ceredigion/ceredigions-river-valley-routes/teifi/>

<https://discovery.nationalarchives.gov.uk/>

<https://en-gb.topographic-map.com>

[https://en.wikipedia.org/wiki/William\\_Bonython\\_Moffatt](https://en.wikipedia.org/wiki/William_Bonython_Moffatt)

<https://www.google.com/maps/>

<https://historypoints.org/>

<https://maps.nls.uk/>

<https://www.peoplescollection.wales>

<http://pint-of-history.wales/>

<https://places.library.wales/>

<https://rcahmw.gov.uk/at-the-cocks-crow-y-plygain-an-early-morning-christmas-service-in-wales/>

<https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0012670>

<https://trawslinkcymru.org.uk/en/history-of-the-lines/>

<https://www.visionofbritain.org.uk/>

<https://www.welshquilts.com/exhibitions/item/42-2009-inaugural-exhibitions>

DRAFFET